

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

06 Mehefin 2022

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Iaith yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 13 Mehefin 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

NODER: Oherwydd COVID-19 a iechyd a diogelwch Cynghorwyr a staff, ni all aelodau'r cyhoedd na'r wasg fynychu'r cyfarfod wyneb i wyneb. Anfonwch e-bost at democratiaeth@ceredigion.gov.uk i ofyn am ddolen i weld y cyfarfod

1. Croeso
2. Ymddiheuriadau
3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2021 (Tudalennau 3 - 6)
5. Cylch Gorchwyl Pwyllgor Iaith (Tudalennau 7 - 10)
6. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-22 (Tudalennau 11 - 48)
7. Adborth ar Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith a Safonau'r Gymraeg (10 Mehefin)
8. Canllaw Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog (Tudalennau 49 - 52)
9. Comisiynydd y Gymraeg yn holi am dystiolaeth Cydymffurfiaeth ? Safonau'r Gymraeg: Holiadur Hunanasesu 2022-23 (Tudalennau 53 - 62)
10. Blaenraglen Waith
11. Unrhyw Fusnes Arall

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Iaith
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR IAITH
a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Llun, 22 Tachwedd 2021**

YN BRESENNOL; Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), y Cynghorwyr Keith Evans, Alun Lloyd Jones, Gareth Lloyd, Dai Mason a John Roberts

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Wyn Thomas

Swyddogion yn bresennol: Mrs Meinir Ebbsworth – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion, Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Democraidd, Ms Nia Jones, Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Democraidd, Mr Huw Owen, Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith, Mrs Non Davies- Rheolwr Corfforaethol-Diwylliant, Mrs Dwynwen Lloyd Llywelyn – Pennaeth Theatr Felin-fach a Champws Felin-fach, Mrs Anwen Eleri Bowen, Swyddog Cymorth y Gymraeg, Mrs Menna Jones, Arweinydd Tîm Cymorth y Gymraeg, Mrs Menna Swenney, Swyddog Cymorth Ysgol, Mr Steffan Rees, Arweinydd Tîm Cered, Mrs Dana Jones, Swyddog Democraidd a Safonau

(10:00am – 12:00pm)

- 1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mr Steffan Jones, Swyddog Rheoli Cyfeiriadau am na allai fynychu'r cyfarfod.
- 2 **Datgelu buddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu**
Dim.
- 3 **Cadarnhau yn gofnod cywir gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021**
PENDERFYNWYD cadarnhau yn gofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021.
- 4 **Unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion**
Dim.
- 5 **Adroddiad Llafar ar Gynllun drafft Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Throchi**
Yn gyntaf, rhoddwyd y diweddaraf am Gynllun drafft Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Dywedwyd bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ganol mis Tachwedd a bod y sylwadau a'r argymhellion bellach wedi'u casglu i'w cyflwyno fel adroddiad i'w ystyried i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ar 15 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, roedd dogfen i fod i gael ei chyhoeddi ar gategoreiddio ysgolion yn ôl iaith yng nghanol mis Rhagfyr. Bellach byddai angen newid yr amserlen i fwrw ymlaen â'r cynllun trwy'r broses ddemocraidd i ddechrau'r flwyddyn newydd, i adlewyrchu nad oedd dogfen Llywodraeth Cymru ar gael tan ganol mis Rhagfyr.

Tudalen 4

Fodd bynnag, hyd yma roedd disgwyl am adroddiad ymgynghori oddi wrth Lywodraeth Cymru

Mewn perthynas â'r trochi laith dywedwyd, yn dilyn rhith-ddysgu, fod yr addysgu bellach wedi dychwelyd i'r ystafell ddosbarth yn dilyn hanner tymor yr hydref yn Felin-fach (roedd 12 o ddisgyblion yn mynychu), Aberteifi (roedd 10 disgybl yn mynychu) ac Aberystwyth (roedd 8 disgybl yn mynychu) gyda dosbarthiadau'n cael eu cynnal bum niwrnod yr wythnos yn lle pedwar i leddfu problemau gyda rheoliadau covid ar gyfer y disgyblion. Roedd rhestr aros o 10 hefyd i fynychu cyfleuster Aberteifi. Arhoswyd am gadarnhad hefyd ar y grant Trochi laith oddi wrth Lywodraeth Cymru i gynorthwyo Blwyddyn 7, Blwyddyn 2 gyda'u sgiliau Cymraeg ac i gynyddu'r ddarpariaeth rithwir yn y Sir ar wasanaeth Hwb yn genedlaethol.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, cytunwyd i longyfarch y gwasanaeth ar ei waith yn ystod yr amser anodd hwn a llongyfarch Arweinydd Tîm Cymorth y Gymraeg ar ei gwaith yn cael ei ganmol yn fawr gan ESTYN.

6 **Adroddiad Llafar ar y Siarter laith, dathliadau a Facebook**

Rhodddwyd y diweddaraf ar y Siarter laith, dathliadau a gwaith Facebook. Rhoddodd y Swyddog wybodaeth am lawer iawn o weithgareddau a digwyddiadau a gynhaliwyd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, llongyfarchwyd Swyddog Cymorth y Gymraeg ar ei gwaith a'i brwdfrydedd.

7 **Hyfforddiant Cymraeg i Staff yn ystod y cyfnod clo**

Ystyriwyd yr Adroddiad ar Hyfforddiant Cymraeg Staff yn ystod y cyfnod clo. Amlinellwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Cefndir
- Dysgu Ffurfiol
- Dysgu Ffurfiol Ychwanegol
- Dysgu Anffurfiol
- Cydnabyddiaeth Genedlaethol
- Cymraeg Gwaith 2021/22

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i longyfarch y Swyddog a'r staff ar Hyfforddiant y Gymraeg a chyflawniadau.

8 **Adroddiad Blynyddol Theatr Felin-fach**

Rhodddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Theatr Felin-fach ar waith y Theatr yn ystod 2020/21 a oedd wedi canolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau creadigol, digidol i sicrhau bod cyfleoedd i drigolion o bob

Tudalen 5

oed yng Ngheredigion a thu hwnt glywed, defnyddio a dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant. Rhoddwyd rhestr o'r gweithgareddau digidol hyn i gynnwys platform Dychmygus, Gŵyl yr Enfys, Bore da Drama, prosiectau Cadw Cyswllt.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd o'r Gwersi a ddysgwyd o weithredu'n ddigidol, Nawr a'r dyfodol a Heriau i'r theatr.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i dderbyn adroddiad blynyddol Theatr Felin-fach a nodi gwaith y theatr fel darparwr arbenigol celfyddydau cymunedol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd ac yn canolbwyntio ar adfer ac ailsefydlu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg a dwyieithog ar gyfer trigolion Ceredigion. Llongyfarchodd yr aelodau'r Theatr hefyd ar eu gwaith yn ystod yr amser anodd hwn.

9 Adroddiad Blynyddol Cered

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Cered. Dywedwyd y bu newidiadau i strwythurau rheoli'r Fenter yn ystod y cyfnod. Roedd y Fenter yn rhan o Is-adran Diwylliant y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant o dan arweinyddiaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Meinir Ebbsworth. Ym mis Tachwedd 2020 penodwyd Rheolwr Cered yn Rheolwr Corfforaethol – Diwylliant, mae rhai o ddyletswyddau a chyfrifoldebau Rheolwr Cered yn rhan o'r rôl honno. Penodwyd Arweinydd Tîm Cered newydd hefyd.

Rhoddwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Nod y Fenter
- Cyfraniad y Fenter at Strategaethau Ehangach
- Cyllid
- Strwythur a Staffio
- Partneriaid
- Gweithgareddau Cered 2020-2021
- Blaenoriaethau Cered ar gyfer 2021/22

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i dderbyn yr adroddiad blynyddol fel cofnod o waith Cered yn ystod y cyfnod dan sylw a nodi gwaith y Fenter wrth hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion. Llongyfarchodd yr aelodau Cered ar eu gwaith yn ystod yr amser anodd hwn.

10 Enwau lleoedd Ceredigion

Ystyriwyd yr adroddiad ar enwau lleoedd Ceredigion.

- o Gan fod yr adroddiad wedi'i drafod mewn cyfarfodydd blaenorol dros gyfnod amser, CYTUNWYD i argymhell y cyflwyniadau i'r Cabinet i'w cymeradwyo'n derfynol.

11 Eitemau er Gwybodaeth Comisiynydd y Gymraeg

Tudalen 6

Rhodddwyd crynodeb o'r adroddiadau canlynol a CHYTUNWYD i nodi'u cynnwys:-

- Holiadur hunanasesu
- Adroddiadau 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
- Adroddiad sicrwydd 2020-21 – 'Camu ymlaen'

Gofynnwyd am gadarnhad a oedd bellach yn bosibl atal perchnogion tai rhag newid enw Cymraeg gwreiddiol eu hannedd i un Saesneg. Dywedwyd, yn anffodus nad oedd hyn yn bosibl; ac mai'r unig broses a oedd gan y Cyngor ar hyn o bryd i'w hannog i gadw'r Enw Cymraeg oedd trwy anfon llythyr at berchennog y tŷ oddi wrth y Swyddog Rheoli Cyfeiriadau. Byddai cyngor cyfreithiol hefyd yn cael ei geisio pe bai'n bosibl i eiddo unwaith iddo gael ei adeiladu fod yn cynnwys cyfamod yn ei weithred a oedd yn nodi y dylai enw Cymraeg yr annedd barhau. Byddai'r cwestiynau hyn hefyd yn cael eu codi yng nghyfarfod y Cyngor Tref a Chymuned y noson honno ar ran Cynghorau Cymuned Llanllwchaearn a Llandysiliogogo gan y Cynghorydd Gareth Lloyd.

- 12 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Pwyllgor**
Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Iaith a gynhaliwyd ar Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

**PWYLLGOR IAITH GYMRAEG
CYLCH GORCHWYL**

WELSH LANGUAGE COMMITTEE
TERMS OF REFERENCE

GRŴP GROUP	PWYLLGOR IAITH GYMRAEG WELSH LANGUAGE COMMITTEE
PWRPAS PURPOSE	<p>Darparu cyfeiriad gwleidyddol ar gyfer hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Gall y Pwyllgor fynnu bod unrhyw aelod neu swyddog o'r Cyngor yn bresennol i ateb cwestiynau a gall hefyd wahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.</p> <p>Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pennu cyfeiriad strategol mewn ymateb i'r Safonau iaith, sydd wedi'i gosod ar Gyngor Sir Ceredigion gan Gomisiynydd y Gymraeg. • Monitro cynnydd gyda gweithrediad Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion • Cytuno ar adroddiad blynyddol ar gynnydd wrth gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg i sylw Comisiynydd yr Iaith Gymraeg • Cymryd rôl weithgar wrth ddatblygu meysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau'; Cynllun Datblygu Lleol. • Derbyn adroddiadau cynnydd ar waith Cered (Menter Iaith Ceredigion) a Theatr Felinfach • Cynnig argymhellion er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Cyngor. • Adolygu gweithrediad Strategaeth Iaith Ceredigion, gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio. • Derbyn gwybodaeth / ymgynghoriadau ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn unol â'r angen, ac ymateb fel sy'n briodol. • Gwneud argymhellion i'r Cabinet a / neu'r Cyngor fel sy'n briodol • <p>To provide political direction for the promotion and facilitation of the Welsh Language in Ceredigion. The Committee may require any member or officer of the Council to attend before it to answer questions and may invite other persons to attend meetings of the Committee.</p> <p>The committee is responsible for fulfilling the following functions:</p> <ul style="list-style-type: none"> • To set strategic direction in response to the Language Standards set by the Welsh Language Commissioner

Tudalen 8

	<ul style="list-style-type: none"> • Monitor progress with the implementation of the Welsh Language Standards • Agree an annual report on progress with the Welsh Language Standards to the Welsh Language Commissioner • Play an active role in the development of other key areas of work relating to the Welsh Language - Welsh Language in Education Strategy; 'More than Just Words' Strategic Framework, Local Development Plan • To receive progress reports on the work of Cered (Menter Iaith Ceredigion) and Theatr Felinfach • To offer recommendations to promote and increase the use of the Welsh language in all aspects of the Council's work • To review the implementation of the Ceredigion Language Strategy, paying attention to the Council's work and any partnership work or joint working • Receiving information / consultations on matters relating to the Welsh Language as required., and respond as appropriate. • Make recommendations to Cabinet and/or Council as appropriate
<p>AELODAETH MEMBERSHIP</p>	<p>(Cadeirydd/Chairman) I'w benodi <u>Plaid Cymru (3)</u> Catrin M S Davies Chris James Rhodri Davies <u>Annibynnol (2)</u> Gareth Lloyd Gwyn Evans <u>Rhyddfrydwyr Democrataidd</u> John Roberts Sedd Wag</p>
<p>LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD</p> <p>GOVERNANCE AND ACCOUNTABILITY</p>	<p><u>Cadeirydd:</u> I'w benodi</p> <p><u>Gweinyddu a Chofnodion:</u> Gwasanaethau Democrataidd</p> <p>Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Iaith y Cyngor, ac yn ddilynol i'r Cabinet.</p> <p><u>Chairman:</u></p> <p><u>Administration & Minutes:</u> Democratic Services</p> <p>Annual Welsh Language Standard Reports will be presented to Welsh Language Committee, and to Cabinet.</p>
<p>CYFARFODYDD MEETINGS</p>	<p><u>Cworwm:</u> Ni fydd cworwm y cyfarfod yn llai na 25%, 2 Aelod Etholedig.</p> <p><u>Amllder Cyfarfodydd:</u> Cwrdd 3 gwaith y flwyddyn ond i fod yn hyblyg er mwyn cyd-daro gyda rhaglen waith Comisiynydd y Gymraeg ag atebolgrwydd pwyllgorau eraill.</p>

Tudalen 9

	<p><u>Papurau:</u> Bydd y papurau yn cael eu rhannu 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.</p> <p><u>Quorum:</u> The quorum for the meeting will be no less than 25%, which is 2 Elected Members.</p> <p><u>Frequency of Meetings:</u> 3 x yearly but that is should be flexible in order to fit in with the work programme for the Welsh Language Commissioner and also accountability to other committees.</p> <p><u>Papers:</u> The papers will be disseminated 5 days ahead of the meeting</p>
ADOLYGU REVIEW	Yn flynyddol Annually.

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Iaith

DYDDIAD: 13 Mehefin 2022

LLEOLIAD:

TEITL: Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2021-22

PWRPAS YR ADRODDIAD: Cyflwyno at sylw Aelodau Pwyllgor Iaith, Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg 2021-22, sy'n amlinellu cynnydd wrth weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Yn unol â Safon 158 mae'n ofynnol cyhoeddi'r adroddiad erbyn 30 Mehefin 2022

CEFNDIR:

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion sy'n deillio o ofynion Safonau'r Gymraeg, sy'n golygu:

- na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- bod angen i'r Cyngor hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn eu bywyd bod dydd.

Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion, gyda'r dyddiad gweithredu cyntaf 30 Fawrth 2016. Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor, ac ar CeriNet ar gyfer aelodau staff.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol at sylw Comisiynydd y Gymraeg yn amlinellu cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud wrth fynd i'r afael â gofynion gweithredu'r Safonau Iaith. Mae'r adroddiad amgaeedig yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022.

Mae'r adroddiad yn nodi'r camau gweithredu sydd wedi'u cymryd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ac wedi'i drefnu o dan y 5 maes gweithredu canlynol:

- **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**
- **Safonau Llunio Polisi**
- **Safonau Gweithredu Mewnol**
- **Safonau Hybu**
- **Safonau Cadw cofnodion.**

Prif Gyflawniadau

Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad Blynyddol, ond dyma rhai o'r Prif Gyflwyniadau yn ystod 2021-22:

- Arloesi, gan addasu'n gyflym i argyfwng y Coronafeirws, drwy drefnu cyfarfodydd democrataidd yn rhithiol, gydag adnoddau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg; gan sicrhau bod y Cyngor yn medru gwarchod defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
- Sicrhau bod gwasanaeth gofal cwsmer Clic yn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau Cymraeg ar y pwynt cyswllt cyntaf; a'u bod yn cofnodi'r dewis iaith hwnnw.
- Ffrydio cyfarfodydd Cabinet a'r Cyngor a'r Facebook – defnyddio cyfrwng Cyfryngau Cymdeithasol i dynnu sylw defnyddwyr gwasanaeth, bod ffrwd Cymraeg a Saesneg ar gael. Y ffrwd Gymraeg yn cael ei ddarparu ar gyfrif Facebook; y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cyflwyno'r cyfieithiad Saesneg; hyrwyddo'r egwyddor o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus.
- Defnyddio diwrnodau penodol yn y calendr cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, trefnu gweithgareddau rhithiol ar Ddydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig Cymru, a Diwrnod Hawliau'r Gymraeg.
- Cynnal gweithdy Fforwm Dyfodol Dwyieithog, er mwyn adolygu lle rydym wedi cyrraedd gyda Strategaeth Iaith Ceredigion, gan ystyried hefyd beth yn rhagor fydd angen ei wneud er mwyn medru paratoi ar gyfer y Strategaeth olynol.

Hunanreoleiddio

Yn ei Adroddiad Sicrwydd 'Cau'r Bwlch' mae Comisiynydd y Gymraeg yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i hunanreoleiddio ei berfformiad yn erbyn gofyniad Safonau'r Gymraeg. Yn dilyn cydsyniad gan y Grŵp Arweiniol, fe wnaethom gynnal adolygiad ynghylch detholiad o Safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, yn ogystal â rhai o'r Safonau Gweithredu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol. Gofynnwyd i bob Swyddog Arweiniol Corfforaethol sgorio eu gwasanaethau gyferbyn ag agweddau o'r Safonau Iaith, mewn ymgais i fesur cydymffurfiaeth gyfredol.

Y prif ganfyddiad oedd, bod y Cyngor yn perfformio yn eithaf da gyferbyn gofynion y Safonau hynny sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol, hynny yw gall defnyddwyr fod yn hyderus o gael gwasanaethau dros y ffôn, gwasanaethau ysgrifenedig, a gwasanaethau y gellir eu cynllunio ar eu cyfer yn Gymraeg. Mae defnyddiwr yn llai tebygol o allu cael gwasanaethau mwy personol neu wasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg; er bod y Cyngor yn anelu at barchu'r dewis iaith mae'n ddibynnol iawn ar yr arbenigedd sydd ei angen, a'r sgiliau iaith sydd ar gael ar wahanol shifftiau. Mae'r canfyddiad hwn yn unol â chanfyddiadau cenedlaethol sydd wedi'i gasglu gan Gomisiynydd y Gymraeg: Adroddiad Sicrwydd 'Cau'r Bwlch'.

Tudalen 13

Yn dilyn y gwaith hunanreoleiddio hwn byddwn yn edrych eto ar gynllun gweithredu Safonau'r Gymraeg er budd cynllunio gwaith i'r cyfnod nesaf.

Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd parhaus mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg ynghyd â chyflwyno'r data penodol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau parhaus, ond rydym yn cydnabod bod ffordd i fynd o hyd er mwyn gwarchod statws swyddogol y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau; a thrwy weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg wedi ymrwymo i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu Cymraeg wrth ymwneud â'r Cyngor o ddydd i ddydd. Mae cyfnod y pandemig a'r gweithio o bell wedi creu nifer o heriau ynghlwm wrth gynllunio ar gyfer y Gymraeg, a bydd angen bod yn wyladwrus ohonynt wrth symud ymlaen i'r cyfnod nesaf.

- Mae'n rhaid cydnabod bod gweithio o bell wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff, ond o bosib mae'n cael effaith llai cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae'n bosib iawn y bydd nifer fawr o swyddogion ddim yn clywed y Gymraeg, a gall hyn effeithio ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth.
- Yn y cyfnod adsefydlu ar ôl y pandemig, mae sawl sector ar draws yr Awdurdod yn ei chael hi'n anodd iawn i recriwtio gweithwyr proffesiynol; er enghraifft mae prinder mawr o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n medru'r Gymraeg. Mae'n allweddol bwysig sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau priodol er mwyn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg.
- Mae pob cwrs dysgu Cymraeg wedi cael ei gyflwyno'n rhithiol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bosib iawn y bydd y newid hwn yn arafu datblygiad rhai unigolion gan nad yw'r un cyfleoedd ar gael gartref i ymarfer eu sgiliau rhwng y gwersi mwy ffurfiol. Bydd rhai dysgwyr ddim yn gweld na chlywed y Gymraeg am gyfnodau hir rhwng y gwersi ffurfiol. Rydym hefyd wedi colli y sgwrsio anffurfiol a oedd yn digwydd wrth y llun-gopiwr neu dros banded, a oedd yn sefydlu'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol.
- Wrth edrych ar y data cyfredol sydd ar gael, nid yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y Sir. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion staff gweithgar ac ymroddedig sy'n siarad Cymraeg ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, ac rydym am annog pobl i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg, ac i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt.

Tudalen 14

Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd angen edrych yn fwy manwl ar sut mae'r Cyngor yn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg, a sut mae'n trefnu ei wasanaethau fel bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt. Er mwyn mynd i'r afael gyda'r mater hwn, dyma rhai o'r gweithredoedd y byddwn yn eu hystyried wrth symud ymlaen.

Dyma restru rhai o'r gweithredoedd sydd angen eu cyflawni wrth symud ymlaen:

- Datblygu pecyn hyfforddi ar ofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer cynghorwyr yn dilyn etholiad Mis Mai 2022.
- Adolygu Polisi Grantiau er mwyn sicrhau bod arfer da Comisiynydd y Gymraeg wedi ei amlygu; a bod gweithdrefn grantiau y Cyngor yn gweithredu yn unol â gofynion y Safonau sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau.
- Adolygu Canllaw Asesiad Effaith Integredig, er mwyn helpu Swyddogion i nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg wrth lunio neu adolygu penderfyniad polisi.
- Llunio adroddiad sy'n amlinellu cyrhaeddiad Strategaeth Iaith Ceredigion, a pharatoi ar gyfer datblygu Strategaeth ar gyfer cyfnod y 5 mlynedd nesaf.
- Cydlynu grŵp prosiect i ddatblygu 'Pecyn Croeso' mewn ymgais i geisio cymhathu mewnfudwyr: gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog
- Cyflwyno cynllun sy'n argymhell gwelliannau i gyflawni gofynion y Safonau Gweithredu - defnyddio'r Gymraeg yn fewnol â hyrwyddo'r cysyniad o weithle dwyieithog
- Dadansoddiad Data Siaradwyr Cymraeg: Cyfrifiad 2021

Cyflwynwyd yr Adroddiad Drafft yn Pwyllgor Iaith Gymraeg y Cyngor ar y 13eg Mehefin 2022.

ARGYMHELLIAD:

- Derbyn Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion (2021-22)
- Cymeradwyo bod yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo a chyhoeddi ar wefan corfforaethol y Cyngor, fel sy'n ofynnol dan drefn Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Enw Cyswllt: Carys Lewis Morgan
Swydd: Swyddog Polisi Iaith
Dyddiad yr Adroddiad: 13 Mehefin 2022



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Adroddiad Monitro Blynyddol
Safonau'r Gymraeg**

1af Ebrill 2021 – 31ain Mawrth 2022

Cymraeg

Awdur: Carys Lewis Morgan, Gwasanaethau Democraidd

Dyddiad Cyhoeddi:

Pwyllgor Iaith: 13/06/2022

Cymeradwywyd gan y Cabinet:

Tudalen 16

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'r
Swyddog Polisi Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carys Lewis Morgan
Swyddog Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Officer

Cyngor Sir Ceredigion County Council
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

E bost: carys.morgan@ceredigion.gov.uk

DRAFT

Tudalen 17

Mynegai

Adran 1: Cyd-destun yr adroddiad

Adran 2 Hybu a Hwyluso Cyfleoedd i Ddefnyddio'r Gymraeg

Adran 3: Trefniadau ar gyfer Cydymffurfio

- Safonau Darparu Gwasanaeth
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu
- Safonau Hybu

Adran 4: Aseiad o Gydymffurfio

Adran 5: Casgliadau

Atodiadau

DRAFT

ADRAN 1: Cyd-destun

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith gyfreithiol i osod dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Pwrpas y Safonau yw:

- Rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- Rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion sy'n deillio o ofynion Safonau'r Gymraeg, sy'n golygu:

- na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- bod angen i'r Cyngor hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn eu bywyd bod dydd.

Mae 5 Prif Safon gyda chyfanswm o **167** is-safonau wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion drwy Hysbysiad Cydymffurfio, gyda'r dyddiad gweithredu cyntaf 30 Fawrth 2016. Mae rhestr lawn y Safonau mae gofyn i Gyngor Sir Ceredigion gydymffurfio â nhw ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor; dyma'r ddolen:

[safonau-iaith-gymraeg-cyngor-sir-ceredigion-hysbysiad-cydymffurfio.pdf](#)

Mae hefyd yn ofynnol cyhoeddi dogfen sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg:

[cydymffurfio-a-safonau-iaith-ceredigion.pdf](#)

Cyhoeddi'r Adroddiad

Mae'n ofynnol bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Mehefin, yn unol â Safonau 158 a 164. Mae'r Adroddiad yn adrodd ar arfer da, ynghyd â nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r dosbarth o Safonau fel a ganlyn:

- Safonau Darparu Gwasanaethau
- Safonau Llundio Polisi
- Safonau Gweithredu Mewnol
- Safonau Hybu

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion perfformiad gofynnol, sef y Safonau Cadw Cofnodion, hynny yw:

Sgiliau iaith Staff : Nifer y staff sydd a sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw
Recriwtio i Swyddi Gwag :Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda'g lefelau ALTE
Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau iaith : Nifer yr aelodau staff a fynychodd gysiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg
Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg : Nifer y staff a fynychodd gysiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd : Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

Tudalen 19

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ynghyd â chyflwyno data angenrheidiol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Cydnabyddir bod y broses o weithredu'r Safonau yn un parhaus, gyda'r nod o sicrhau bod y gofynion yn cael eu prif llifo'n naturiol i waith y Cyngor, a bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddiodyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i gyflawni gwelliannau, ac i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd gofynion Safonau'r Gymraeg yn llawn. Mae'r Cyngor yn cydnabod fel rhan o'r adroddiad hwn bod cynnydd wedi ei wneud, ond bod yna welliannau i'w gwneud o hyd, er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau.

ADRAN 2: Hybu a Hwyluso

Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i Hybu a Hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o ymateb i ddigwyddiadau, wrth i argyfwng digynsail y Coronofeirws, Cofid 19 effeithio ar ein holl weithgaredd. Ond, mae hefyd wedi bod yn flwyddyn o arloesedd, wrth i'r Cyngor orfod addasu yn gyflym, a thrwy hynny achub ar nifer o gyfleoedd newydd

Mae'r Cyngor wedi gwneud newidiadau syfrdanol gan ddefnyddio technoleg at bwrpas darparu gwasanaethau. Drwy ddarganfod dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau, megis gweithio o bell, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni mwyafrif ei weithgareddau hanfodol i gwsmeriaid, yn ddiogel, yn y ffordd newydd hon o weithio. Mae mwyafrif staff Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i weithio o bell; ac yn ystod mis Ebrill cyhoeddwyd **Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro**, er mwyn mabwysiadu model gweithio hybrid a hwyluso ffordd fodern ac effeithlon o weithio sy'n gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Gwasanaethau Rhithiol / Cyfieithu ar y pryd

Un o'r heriau cyntaf wrth symud i weithio o bell, oedd addasu i ddefnyddio dull newydd o gynnal cyfarfodydd democrataidd, gan gadw'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd. Roedd rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth pwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol hefyd yn cynnwys gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r cychwyn cyntaf. Cafwyd penderfyniad cynnar i ddefnyddio platform Zoom ar gyfer cyfarfodydd yn gyhoeddus, gan fod sianel benodol ar Zoom ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Felly, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl gyfarfodydd democrataidd y Cyngor; at hyn darperir y gwasanaeth mewn digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus ac ambell gyfarfod mewnol y Cyngor (er enghraifft mewn cyfarfodydd disgyblu, cyfarfodydd bwrdd perfformiad, mewn cyfweiliadau ac mewn sesiynau hyfforddi). Rhwng Mawrth 2021 ac Ebrill 2022 mae 229 o bwyllgorau a chyfarfodydd rhithiol wedi eu cefnogi gan y tîm cyfieithu, wrth iddynt ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, a hynny fel arfer o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Cyfarfodydd Gwasanaethau Democrataidd y cyfieithwyd ynddynt	100
Cyfarfodydd Llesiant y cyfieithwyd ynddynt	33
Cyfarfodydd Arall y cyfieithwyd ynddynt	96
CYFANSWM y cyfarfodydd y cyfieithwyd ynddynt	229

Mae'r Cyngor yn cyflogi 9 aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Cyfieithu. 6 llawn amser, 2 yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos ac 1 yn gweithio 1 diwrnod yr wythnos. O'r rhain mae 4 amser llawn hefyd yn cyfieithu ar y pryd, 1 sy'n gweithio 3 diwrnod yr wythnos yn cyfieithu ar y pryd, ac mae 1 sy'n gweithio 1 diwrnod yr wythnos yn cyfieithu ar y pryd.

Systemau Technegol

Mae angen trwydded gorfforaethol er mwyn defnyddio system Zoom ar gyfer cyfarfodydd sy'n hwy na deugain munud, ac mae'r drwydded yn gallu bod yn gostus. Felly, mae'r Cyngor wedi archebu nifer cyfyngedig o drwyddedau; defnyddir y platform Zoom, ar gyfer hwyluso cyfarfodydd cyhoeddus yn ogystal â darparu hyfforddiant corfforaethol; hyn er mwyn sicrhau bod dewis iaith y cyfranogwyr yn cael ei warchod. Datblygwyd canllaw dwyieithog, yn rhoi gwybod i staff sut i gynnal cyfarfodydd yn rhithiol, gan gynnwys arweiniad ynghylch sicrhau bod dewis iaith yn cael ei barchu

Roedd angen canfod platform arall, llai costus ac yn fwy ymarferol ar gyfer defnydd mewnol y Cyngor. Nid oedd y Cyngor wedi defnyddio rhaglen Teams o'r blaen, ond yn gyflym iawn roedd rhaid addysgu staff Ceredigion ynghylch ei ddefnydd. Trefnwyd nifer o sesiynau hyfforddiant rhaglen Teams, cyflwynwyd sesiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe gynhyrchwyd canllaw yn y naill iaith hefyd.


Fodd bynnag, mae system Teams yn gosod her arall, o ran defnydd iaith mewn cyfarfodydd mewnol, gan nad oes opsiwn i ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd. Felly, er y byddai staff yn cyflwyno cymysgedd o Saesneg a Chymraeg i Grŵp o gyfranogwyr yn arferol, mae mwy o dueddiad i gadw at un iaith oherwydd cyfyngiadau Teams. Fodd bynnag, rydym wedi canfon bod y botwm 'chat' yn medru bod yn ddefnyddiol, lle mae modd cyflwyno cwestiwn neu sylw yn y dewis iaith.

Mae Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â nifer o gyrff cyhoeddus wedi tynnu sylw at y diffyg hwn, ac mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithio gyda Microsoft i geisio mynd i'r afael â'r mater; rydym yn disgwyl cyhoeddiad yn fuan iawn.

Sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn eu gwasanaeth yn y Gymraeg



Mae Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic yn gweithredu fel un pwynt mynediad i wasanaethau'r Cyngor, naill ai dros y ffôn neu'n ddigidol; ac fe gaiff ddefnyddwyr gwasanaeth y dewis i gysylltu gyda'r Cyngor yn y Gymraeg neu'r Saesneg.




Mae staff Gwasanaeth Clic yn parhau i weithio o bell, ac yn darparu'r gwasanaeth llawn dros y ffôn neu'n ddigidol.

Tudalen 21

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu yn yr un drefn â'r system yn y swyddfa, hynny yw mae dangosydd ar waelod y sgrin yn rhoi gwybod bod y galwr wedi dewis y gwasanaeth yn Gymraeg, ac felly mae'r derbynnydd yn medru rhoi gwasanaeth llawn yn y Gymraeg. Mae hyd yn oed y 'bwrdd hysbysu' yn rhoi gwybod nifer o alwadau sydd ar waith ar y tro, gan gynnwys rhoi gwybod faint o alwadau Cymraeg a galwadau Saesneg sydd ar waith.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Gwasanaeth Clic wedi diweddarau'r system ddigidol, hynny er mwyn gwneud y broses cofnodi ymholiadau yn rhwyddach. Mae Gwasanaeth Clic yn delio gydag ymholiadau cychwynnol ar gyfer mwyafrif o wasanaethau ar draws y Cyngor; fodd bynnag mewn rhai achosion mwy cymhleth mae angen trosglwyddo'r alwad at swyddog perthnasol. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gofnodi dewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth, ac os oes angen trosglwyddo'r alwad mae'r dewis iaith yn cael ei nodi'n glir. Mae'r Gwasanaeth wedi rhannu fideo a chanllaw dwyieithog yn egluro'r drefn, gan gynnwys y gofyniad i wirio dewis iaith, ac i ymateb i'r defnyddiwr gwasanaeth yn yr iaith honno.



Mae 19 o staff yn rhan o Wasanaeth Clic. O'r rhain mae 15 yn rhugl yn y Gymraeg, ac yn medru darparu gwasanaeth Cymraeg llawn. Mae 4 yn mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg, a bellach mae 2 ohonynt yn ddigon hyderus i ddelio gyda'r galwadau ar y llinell Cymraeg. Mae hyn oherwydd eu bod wedi derbyn hyfforddiant wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer Gwasanaeth Clic; yn cwmpasu gofynion darparu'r cynnig rhagweithiol; ymglyfarwyddo a themau ac ymadroddion perthnasol wrth ddelio gydag ymholiadau cychwynnol, a dod yn hyderus wrth eu defnyddio. Mae'r Gwasanaeth yn hysbysebu 3 swydd ychwanegol ar hyn o bryd, mae'r swyddi yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg hanfodol.

Nifer galwadau Gwasanaeth Clic 2021-22

Mae Gwasanaeth Clic yn cofnodi nifer y galwadau i'r ganolfan gyswllt; mae nifer o'r galwadau yn Saesneg yn dueddol i fod yn llawer uwch na'r galwadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r galwadau yn Gymraeg yn gyson ac yn dueddol o fod tua 15% o'r holl alwadau a dderbynir. Dyma gofnod o'r galwadau yn ystod y cyfnod adrodd:

Tudalen 22

	SAES	CYM	Cyfanswm Y Mis	%
Ebr-21	8236	1513	9749	16%
Mai-21	7517	1379	8896	16%
Meh-21	8419	1399	9818	14%
Gorf-21	8389	1453	9842	15%
Awst-21	8191	1379	9570	14%
Medi-21	9126	1660	10786	15%
Hyd-21	7675	1276	8951	14%
Tach-21	7238	1156	8394	14%
Rhag-21	5835	992	6827	15%
Ion-22	8874	1468	10342	14%
Chwef-22	8576	1416	9992	14%
Maw-22	9306	1586	10892	15%
Cyfanswm	97382	16677	114059	
Cyfanswm Cyfunol	114059			15%

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer dinasyddion Ceredigion; ac yn awyddus iawn i annog ein trigolion i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt. Gweler adran 'codi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau Cymraeg'. Fel rhan o'r broses cyflwyno'r Gwasanaeth Clic, rydym wedi addasu ein Neges Croeso dros y ffôn, a hynny er mwyn annog cwsmeriaid i ddewis y gwasanaeth Cymraeg.

Diolch am alw Cyngor Sir Ceredigion/ Thank you for calling Ceredigion County Council.

Mae croeso ichi ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor / You are welcome to use Welsh when contacting the Council.

Am barhau yn Gymraeg gwasgwch 1: To proceed in English press 2

Codi Ymwybyddiaeth am y Gwasanaethau Cymraeg Sydd ar Gael


- Mae gwybodaeth am holl wasanaethau'r Cyngor ar wefan y Cyngor yn ddwyieithog.
- Ceir dogfen ar y wefan yn nodi'r Safonau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy.
- Mae dogfen Datganiad Polisi Y Cyngor hefyd ar gael i'w lawr lwytho ar wefan y Cyngor, sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir. [Y Gweithle Dwyieithog: \(ceredigion.gov.uk\)](http://ceredigion.gov.uk)
- Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd helaeth o'r Cyfryngau Cymdeithasol, gweler y manylion isod ynghylch hyrwyddo'r Gymraeg

- Mae'r Cyngor wedi trefnu ymgyrchoedd er mwyn rhoi gwybod am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, gan ddefnyddio diwrnodau penodedig i wneud hynny ee: Diwrnod Shwmae , Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Hawliau.


Y Cyfryngau Cymdeithasol a'r Gymraeg

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyfrifon Cymraeg a Saesneg ar Facebook a Twitter, a chyfrif dwyieithog ar Instagram. Caiff negeseuon eu postio yn ddwyieithog bob amser ar gyfrif Instagram. Mae **Polisi Golygyddol a Gweinyddol ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol** yn cynnwys adran ar ddefnydd Y Gymraeg, ac yn darparu canllaw ynghylch defnydd iaith.

Er mwyn hyrwyddo'r cyfrifon Cymraeg, mae Gwasanaeth y Wasg yn postio neges chwarterol yn tynnu sylw bod cyfrif yn Gymraeg ar gael ar Facebook a Twitter. Gweler yr enghraifft hon:



Mae'r Cyngor wedi llwyddo i we-ddarlledu Pwyllgorau'r Cabinet a'r Cyngor ar 'Facebook Live'. Oherwydd iaith y llawr yn y cyfarfodydd hyn yw'r Gymraeg, mae'r fersiwn Cymraeg yn cael ei darlledu ar y cyfrif Cymraeg a Saesneg, ac mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarlledu ar y fersiwn Saesneg. Rydym yn postio sylwad ar ddechrau pob cyfarfod, fel yr isod:



Ers y cyfnod clo, a'r angen i we-ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n gofyn ar ein cyfrif Saesneg ar Facebook lle y gallant


Tudalen 24

ddod o hyd i'r cynnwys yn Gymraeg. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn ceisio postio sylwad yn y blwch sylwadau ar ein negeseuon gan nodi'r canlynol:

Facebook Saesneg: I weld yr wybodaeth yma yn y Gymraeg, cofiwch ddilyn @Cyngor Sir Ceredigion / To receive this information in Welsh, remember to follow Cyngor Sir Ceredigion

Facebook Cymraeg: I weld yr wybodaeth yma yn Saesneg, cofiwch ddilyn @Ceredigion County Council / To receive this information in English, remember to follow @Ceredigion County Council

Dyma enghreifftiau:



Yn ogystal â hyn, pan fo lle yn caniatáu ar negeseuon penodol, rydym yn ceisio cynnwys cyfeiriad y dudalen Gymraeg yn y neges gwreiddiol, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl allu clicio rhwng y tudalennau wrth ddarllen y neges. Dyma enghraifft:



Nifer ein dilynwyr

Cyfrifon	Awst 2021	Chwefror 2022	Cynnydd
Facebook Cymraeg	1,586	1,639	+53
Facebook Saesneg	12,447	14,610	+ 2,163
Twitter Cymraeg	2,495	2,537	+42
Twitter Saesneg	8,299	8,469	+170
Instagram Caru Ceredigion	1,139	1,204	+ 65


Mae'r Cyngor hefyd wedi mynd ati i hyrwyddo ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael; gan roi gwybod i drigolion am eu hawliau i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u hannog i'w defnyddio.

Dydd Gŵyl Dewi 2022

Defnyddio Dydd Gŵyl Dewi er mwyn dathlu iaith a diwylliant yng Ngheredigion. Fe wnaethom godi ymwybyddiaeth bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Cheredigion ym mis Awst eleni, drwy greu fideo yn rhoi esboniad o beth yw'r Eisteddfod a beth y gellid ei weld yno. Mae'r Eisteddfod yn un o gonglfeini'r iaith Gymraeg, yn cynnig cyfleoedd pwysig i bobl siarad yr iaith ac i atgyfnerthu eu hyder ynddi. Mae hefyd yn gyfle i ddenu pobl ddi-gymraeg at yr iaith ac i bobl sy'n ei dysgu i'w hymarfer.

Mae cyfleoedd diwylliannol yr Eisteddfod yn cynnig cyfle i bobl gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus ac yn adlewyrchu bwrlwm iaith fyw. Felly, yn rhan o'r ymgyrch, roeddem hefyd yn annog defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael drwy'r Cyngor.

Rhoddwyd neges i ddathlu dydd Gŵyl Dewi ar y bwletin newyddion i staff mewnol hefyd. Rhannwyd Poster Safonau'r Gymraeg, mae'r posteri yn arf defnyddiol i brocio'r cof o ran gofynion Safonau'r Gymraeg. Gan fod pawb bellach yn gweithio o gartref, mae'n ddull syml o atgoffa staff o'u dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg.



Diwrnod i Hyrwyddo Hawliau'r Gymraeg

Ar y 7fed o Ragfyr 2021, bu sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gynnal 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg'. Diwrnod yw hwn i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae sefydliadau'n eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda nhw. Roedd yn gyfle i Gyngor Sir Ceredigion hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac i geisio cynyddu'r nifer sy'n dewis eu defnyddio. Hyrwyddwyd fideo byr ar y cyfryngau cymdeithasol, oedd yn nodi rhai o'r hawliau sydd gan bersonau wrth gysylltu gyda'r Cyngor.

ADRAN 3: Trefniadau Cydymffurfio

Trefniadau Goruchwyllo Cydymffurfiaeth

Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei gynnal ar ei Wasanaethau.

Yn gyfredol mae'r portffolio gwleidyddol dros y Gymraeg yn rhan o ddyletswydd Arweinydd y Cyngor, Y Cyngorydd Ellen ap Gwynn. Mae cyfrifoldeb strategol am yr Iaith Gymraeg gyda'r Gwasanaeth Democraataidd. Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw Lowri Edwards. Mae'r gwaith o ymdrin yn weithredol â materion y Gymraeg o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb y Swyddog Polisi Iaith Gymraeg, Carys Lewis Morgan.

Caiff Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg ei graffu gan Aelodau'r Pwyllgor Iaith, a fydd yn argymhell cynigion i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar Wefan y Cyngor, at hyn bydd yr adroddiad yn cael ei gynnwys fel rhan o Agenda'r Grŵp Arweiniol er gwybodaeth.

Pwyllgor Iaith:

Mae'r pwyllgor yn darparu cyfeiriad gwleidyddol ar gyfer hybu a hwyluso'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion, ac i gefnogi ei ymdrechion i wella defnydd o'r Gymraeg drwy'r sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 6 Aelod Etholedig sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol, ac mae'r Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor yn gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor. Gall y Pwyllgor fynnu bod unrhyw aelod neu swyddog o'r Cyngor yn bresennol i ateb cwestiynau a gall hefyd wahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd yn chwarterol. Yn ogystal â chydymffurfiaeth gyda'r Safonau, mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau ar y Fframwaith Strategol Mwy Na Geiriau, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gweithredoedd Cered a Theatr Felin-fach wrth hybu a hwyluso'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor hwn, yn argymhell cynigion i Gabinet y Cyngor.

Fforwm Dyfodol Dwyieithog:

Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion wedi'i sefydlu er mwyn cefnogi'r gwaith i gyflawni Strategaeth Iaith Ceredigion, sef gofyniad y Safonau Hybu 145 a 146. Mae Strategaeth Iaith Ceredigion yn amlinellu sut bydd gwasanaethau'r Cyngor ynghyd â sefydliadau partner yn cyd-weithio er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach ar draws y Sir. Mae'r fforwm hefyd yn caniatáu trafodaeth gynhwysol am fuddiannau'r Gymraeg, yn fforwm sy'n hwyluso camau i rannu gwybodaeth ac arfer da, ac sy'n meithrin cydweithredu er budd y Gymraeg. Mae'r aelodaeth yn cynnwys sefydliadau partner Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn ogystal ag ystod o sefydliadau ar draws y Sir, sydd wedi ymrwymo i'r weledigaeth ar gyfer Ceredigion gwirioneddol ddwyieithog. Yn gyfredol caiff y Fforwm ei gadeirio gan y Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor.

Hunanreoleiddio

Yn ei Adroddiad Sicrwydd 'Cau'r Bwlch' mae Comisiynydd y Gymraeg yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i hunanreoleiddio ei berfformiad yn erbyn gofyniad Safonau'r Gymraeg. Yn dilyn cydsyniad gan y Grŵp Arweiniol, fe wnaethom gynnal adolygiad ynghylch detholiad o Safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth, yn ogystal â rhai o'r Safonau Gweithredu sy'n ymwneud â gweinyddiaeth fewnol. Gofynnwyd i bob Swyddog Arweiniol Corfforaethol sgorio eu gwasanaethau gyferbyn ag agweddau o'r Safonau Iaith, mewn ymgais i fesur cydymffurfiaeth gyfredol.

Y prif ganfyddiad oedd, bod y Cyngor yn perfformio yn eithaf da gyferbyn gofynion y Safonau hynny sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sylfaenol, hynny yw gall defnyddwyr fod yn

Tudalen 27

hyderus o gael gwasanaethau dros y ffôn, gwasanaethau ysgrifenedig, a gwasanaethau y gellir eu cynllunio ar eu cyfer yn Gymraeg. Mae defnyddiwr yn llai tebygol o allu cael gwasanaethau mwy personol neu wasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg; mae hyn yn ddibynnol ar sgiliau iaith ynghyd ag argaeledd ar wahanol shifftiau. Mae'r canfyddiad hwn yn unol â chanfyddiadau cenedlaethol sydd wedi'i gasglu gan Gomisiynydd y Gymraeg: Adroddiad Sicrwydd 'Cau'r Bwlch'.

Y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant wnaeth sgorio uchaf gyferbyn gofynion Safonau'r Gymraeg, gyda Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaeth Porth Cynnal yn sgorio isaf. Mae hyn o bosib yn adlewyrchiad o'r niferoedd o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg o fewn y Gwasanaethau hyn:

Gwasanaeth	Rhugl (ALTE 5)	Heb Ddim Sgiliau
Y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant	46%	1%
Gwasanaeth Porth Cynnal	23%	8%
Technoleg Gwybodaeth	40%	3%

Yn dilyn y gwaith hunanreoleiddio hwn byddwn yn edrych eto ar gynllun gweithredu Safonau'r Gymraeg er budd cynllunio gwaith i'r cyfnod nesaf.

Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-87)

Mae'r set o safonau hyn nodi sut mae'n ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd, fel bod modd i siaradwyr Cymraeg gael mynediad di-rwystr at wasanaethau Cymraeg; er enghraifft wrth anfon gohebiaeth, delio a galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Rhif Safon	Gofyniad y Safon a Throsolwg o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio
7,64, 67,68	<p>Sefydlu Dewis Iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic yn gofyn beth ydy iaith ddewisol y defnyddiwr gwasanaeth pan fydd yn ymdrin â hwy am y tro cyntaf; ac yn nodi'r dewis iaith hwnnw os oes angen trosglwyddo'r ymholiad. Mae papur pennawd corfforaethol yn ogystal ag e-byst allanol y Cyngor yn cynnwys datganiad sy'n croesawu defnyddio'r Gymraeg Mae'r wefan gorfforaethol yn rhoi dewis iaith o'r dudalen gyntaf.
1-7 8-22 37+38 40-49 50-51 69-70	<p>Gohebiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cwrs Sefydlu a'r Rhaglen E-Ddysgu Orfodol yn rhoi gwybod i bob aelod o staff beth yw'r drefn o ran derbyn ac anfon gohebiaeth. Mae Canllaw a chyfarwyddiadau wedi'i gyhoeddi i staff i wneud yn siŵr bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer anfon a derbyn gohebiaeth. Safonau'r Gymraeg 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud' Mae'r cyfarwyddyd wedi cael ei gyhoeddi ar y fewnwyd, ac rydym wedi hyrwyddo drwy ddefnyddio'r bwletin Newyddion Corfforaethol. Disgwylir i bob aelod o'r staff fod yn gyfrifol ac atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol cywir i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau.
8-22	Galwadau ffôn

Tudalen 28

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Gwasanaeth Clic yn delio gyda phob ymholiad cychwynnol y Cyngor, ac yn gyfrifol am sicrhau'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg. • Mae swyddi sy'n ymgymryd â dyletswyddau Gwasanaeth Clic yn swyddi Cymraeg hanfodol ac mae siaradwyr Cymraeg wedi cael eu penodi i'r swyddi hyn. Hysbysebwyd 5 Swydd yn y flwyddyn adrodd, a llwyddwyd i benodi siaradwyr Cymraeg. • Mae staff sydd yn siarad Cymraeg wedi eu hamlygu yng Nghyfeirlyfr Staff electronig, fel bod modd dod o hyd i siaradwyr Cymraeg yn hawdd pan fydd angen. • Mae'r cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff wedi ei gyhoeddi ar fewnwyd ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn os ydy'r galwr yn dymuno ymdrin â'r Gwasanaeth yn Gymraeg. Safonau'r Gymraeg 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud'
24-29 30-38 87	<p>Cynnal cyfarfodydd a threfnu digwyddiadau cyhoeddus</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arfer sefydlog y Cyngor yw cynnal cyfarfodydd Democrataidd y Cyngor yn Gymraeg (80% o gyfarfodydd Democrataidd y Cyngor yn cael eu Cadeirio drwy gyfrwng y Gymraeg). Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ymhob cyfarfod Democrataidd y Cyngor er mwyn hwyluso defnydd iaith. • Mae'r cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff wedi ei gyhoeddi ar fewnwyd y Gwasanaeth ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn os ydy'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg wrth gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth. Safonau'r Gymraeg 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud'
38, 40, 47-51	<p>Agendâu, Cofnodion a Dogfennau Cyhoeddus eraill</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae llunio agendâu, cofnodion a phapurau atodol ar gyfer Cabinet a Phwyllgorau Craffu yn Gymraeg a Saesneg yn arfer sefydlog, ac mae'r rhain oll ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor. • Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor, nad oes modd cyhoeddi dogfen at ddefnydd cyhoeddus oni bai bod fersiwn gorffenedig Saesneg a Cymraeg ar gael i'w gyhoeddi ar yr un pryd. • Rhannwyd cyfarwyddiadau ar y bwletin Newyddion (Mawrth 2022) yn rhoi gwybod os oes angen llunio dogfen Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae'n ofynnol gosod ymwadiad 'Mae'r ddogfen/ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.'
52 55-56 58-59	<p>Gwefannau, apiau a gwasanaethau ar-lein, ynghyd â'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheolir cynnwys y wefan gan y Gwasanaeth TG er mwyn monitro ansawdd, ac ni chaiff unrhyw wybodaeth ei gyhoeddi hyd nes bod fersiwn Cymraeg a Saesneg cyflawn ar gael. • Rheolir y prif gyfrif cyfryngau cymdeithasol y Cyngor gan Dîm y Wasg, gyda chyfrif Saesneg a chyfrif Cymraeg ar wahân.
64,67,68,69,70	<p>Gwasanaeth Derbynfeydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan fod pob derbynfa wedi cau oherwydd y pandemig, rydym wedi atgoffa'r Gwasanaeth Hamdden a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ynghylch gofynion y Safonau, gan ddarparu rhestr wirio, wrth iddynt ail agor.
	<p>Arwyddion a Hysbysebion</p>

Tudalen 29

61-63,70	<ul style="list-style-type: none"> Mae polisi'r Cyngor yn datgan fod pob arwydd y Cyngor yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf
71-75 94	<p>Dyfarnu Grantiau</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r meini prawf ynghlwm wrth unrhyw gais am grantiau cymunedol, yn holi am dystiolaeth ynghylch cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg Bydd angen diwygio'r polisi ar ddyfarnu grantiau er mwyn cynnwys yr arfer da sydd yng nghanllaw Comisiynydd y Gymraeg.
76-80	<p>Dyfarnu Contractau</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaeth caffael i sicrhau bod gofynion Safonau'r Gymraeg wedi'i ymgorffori wrth gcontractio neu gomisiynu gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn medru cynghori swyddogion o'r math o gymalau y mae angen iddynt eu cynnwys wrth gomisiynu neu gcontractio gwaith er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda'r Safonau.</p>
84 a 86	<p>Cyrsiau Addysg sy'n agored i'r cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae canllaw 9 Cam wedi'i rannu gyda'r Gwasanaeth Dysgu Bro (Gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned) a'r Gwasanaeth Hamdden, er mwyn helpu'r gwasanaeth i asesu lefel y galw am y cwrs yn Gymraeg. Gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth a ydynt yn dymuno derbyn y cwrs yn Gymraeg adeg cofrestru.

Cydymffurfio â Safonau Llundio Polisi (Safon 88-89)

Safonau Llundio Polisi - yn canolbwyntio ar gyflawni asesiad effaith o'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a chymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo defnydd o'r iaith

Er mwyn cydymffurfio gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â llunio polisiâu, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

Rhif Safon	Trosolwg o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio
88-90 94	<p>Llundio neu Adnewyddu Polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Canllaw wedi'i gyhoeddi sy'n nodi bod rhaid i swyddogion ystyried yr effeithiau (positif a/neu negyddol) y gallai unrhyw bolisi newydd sy'n cael ei roi ar waith; ei gael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith. Rhaid cyflwyno'r ddogfen Asesiad Effaith Integredig gydag unrhyw ddogfen bolisi sy'n cael ei hystyried gan Gabinet y Cyngor- mae hyn yn darparu gwarant bod ystyriaethau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg wedi'u hystyried wrth lunio'r ddogfen; a bod mesurau lliniaru wedi eu nodi er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg. Bydd angen diwygio'r canllaw ar gyfer Asesu Effaith y Gymraeg, er mwyn sicrhau bod arfer da Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei ymgorffori yn y ddogfen.

92-93	Cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus
	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi datblygu set o gwestiynau y gall Swyddogion eu defnyddio wrth ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad, hyn er mwyn ystyried beth yw barn y cyhoedd ar effaith y penderfyniad ar y Gymraeg. Rydym wedi gosod y drefn bod rhaid cysylltu fel y cam cyntaf mewn unrhyw brosiect ymgynghori, gyda'r Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, er mwyn sicrhau rheolaeth gorfforaethol.

Cydymffurfiaeth â Safonau Gweithredu (99-144)

Mae'r set o **Safonau Gweithredol (98-144)**, yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac yn darparu hawliau i weithwyr yng nghyd-destun derbyn eu gwasanaeth adnoddau dynol yn eu dewis iaith. Mae'r set o Safonau yn gofyn i'r Cyngor edrych ar ddulliau i gynyddu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol, er mwyn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Er mwyn cydymffurfio gyda'r dosbarth o Safonau yn ymwneud â gweithredu mewnol, mae'r Cyngor wedi cymryd y camau gweithredu canlynol:

Rhif Safon	Trosolwg o'r camau a gymerwyd i gydymffurfio
98	<p>Polisi Hwyluso Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol</p> <p>Mae'r Cyngor wedi llunio Polisi er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth fewnol, ac mae'r ddogfen hon wedi ei chyhoeddi ar CeriNet (mewnwyd y Cyngor). At hyn mae rheolwyr a staff wedi cael gwybod am y Safonau Gweithredol a hawliau gweithwyr.</p>
99-104	<p>Darparu dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cynhyrchu contractau cyflogaeth yn ddwyieithog. Gofynnir i staff ym mha iaith yr hoffent dderbyn gohebiaeth bersonol yn ymwneud â chyflogaeth. Rhoddir dewis iaith i staff y Cyngor wrth geisio mynediad i system ddigidol adnoddau dynol; yn unol â hyn mae staff yn medru archebu gwyliau, cofnodi absenoldeb o'r gwaith a chofnodi oriau hyblyg yn y Gymraeg. Mae dogfennaeth arfarnu blynyddol ar gael yn Gymraeg, mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gweithio i sicrhau bod y ffurflen yn gweithio'n ddigidol hefyd.
105-111	<p>Darparu Polisiau Adnoddau Dynol yn Gymraeg</p> <p>Holl bolisiau adnoddau dynol yn cael ei darparu'n ddwyieithog i staff ar Cerinet (mewnwyd y Cyngor)</p>
112-119	<p>Y drefn gwyno a disgyblu</p> <p>Mae'r polisi ynghylch y drefn gwyno a phroses disgyblu yn rhoi gwybod i staff bod ganddynt hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg</p>
120-126	<p>Y fewnrwyd ac adnoddau TGCh</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae CeriNet, mewnwyd y Cyngor yn gwbl ddwyieithog. Mae Newyddion HR News yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, ac mae staff yn medru dewis iaith ar gyfer derbyn yr ohebiaeth.

Tudalen 31

	<ul style="list-style-type: none"> Mae tudalen ddynodedig ar gael ar CeriNet i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith 'Iaith ar Waith'. Bydd hwn yn cael ei ddiweddarau yn y cyfnod adrodd Mae meddalwedd Cysgliad, er mwyn gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ar gael ar bob cyfrifiadur.
127	<p>Asesu Sgiliau Iaith y Gweithlu</p> <p>Mae sgiliau iaith staff yn cael ei gofnodi yn ystod y broses recriwtio a'r gwerthusiad blynyddol. Cedwir cofnod o'r sgiliau iaith ar CeriNet. Gweler dadansoddiad o ganlyniad sgiliau iaith y gweithlu yn Atodiad 1 o'r adroddiad.</p>
128-133	<p>Safonau ynghylch meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu</p> <ul style="list-style-type: none"> Drwy bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol cyflogir Tiwtor Cymraeg Gwaith i ddarparu hyfforddiant ar ystod o wahanol lefelau i ddysgu Cymraeg Mae'r hyfforddiant sefydlu yn cyfeirio at y gofyniad i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ynghyd â gweithredu Safonau'r Gymraeg yn cael ei gynig i staff Mae trefniadau yn eu lle fel bod staff yn gallu gwneud cais i dderbyn cyrsiau hyfforddi corfforaethol drwy gyfrwng y Gymraeg; byddwn yn gweithio i wella ar y ddarpariaeth yn y cyfnod adrodd nesaf. <p>Ceir dadansoddiad o ganlyniad hyfforddiant y gweithlu ar gyfer y flwyddyn adrodd yn Adran 4.</p>
134-135	<p>Geiriad a logo ar gyfer llofnod e-bost staff</p> <p>Dosbarthwyd cyfarwyddiadau ar sut i osod logo iaith gwaith ar lofnodion e-byst, sut i osod cyfeiriad dwyieithog ynghyd ag awgrymiadau ar osod negeseuon allan o'r swyddfa ddwyieithog i'r staff.</p>
136-137	<p>Recriwtio ac apwyntio</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'n ofynnol i Reolwyr Recriwtio asesu'r Lefel ALTE sydd ei hangen ar gyfer pob swydd, a darparu'r rhesymeg dros ganlyniad yr asesiad fel rhan o'r broses Caniatâd i Lenwi Swyddi Newydd Bydd y lefel sgil sydd ei hangen ar gyfer y 4 sgil (siarad, ysgrifennu a darllen) i'w gweld yn y swydd ddisgrifiad. Mae sgiliau cwrteisi sylfaenol yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd newydd o fewn y Cyngor. Mae'n rhaid i ymgeisydd llwyddiannus ennill leiaf Lefel 1 o fewn 6 mis i'w benodiad, a chaiff gefnogaeth i wneud hynny. Mewn achosion lle na fu'n bosibl penodi swyddog sy'n bodloni'r gofynion iaith yn llawn, gosodir cymal yn y cytundeb cyflogaeth ynghylch yr ymrwymiad fydd ei angen i gyrraedd y lefel sgiliau Cymraeg disgwylidig.
137-140	<p>Ffurflenni Cais a Threfniadau Cyfweliad am Swydd</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ffurflenni cais ar gael yn ddwyieithog drwy'r system electronig e-recriwtio Ceri, Gwnaed newidiadau i'r safle recriwtio er mwyn hyrwyddo bod modd i'r ymgeisydd wneud cais am swydd yn ei ddewis iaith, ynghyd â dewis iaith ar gyfer y cyfweliad. Polisi y Cyngor yw ceisio sicrhau bod o leiaf un siaradwr Cymraeg ar y Panel Cyfweld, lle nad yw hyn yn bosib darperir gwasanaeth cyfieithu ar y

Tudalen 32

	pryd os yw'r ymgeisydd wedi nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad
141-144	Arwyddion a chyhoeddiadau a arddangosir yn y gweithle Polisi y Cyngor yw gosod pob pob arwydd (neu gyhoeddiad dros offer sain) yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf. Mae hyn yn cynnwys arwyddion dros dro ac arwyddion sefydlog.

Cydymffurfiaeth a'r Safonau Hybu (Safonau 145-146)

Mae'r Safonau Hybu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut bydd y Cyngor yn mynd ati hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach o fewn yr ardal.

Cyhoeddwyd ail Strategaeth Iaith Ceredigion yn 2018, ar gyfer hybu defnydd y Gymraeg. Mae'r Strategaeth yn esbonio sut bydd y Cyngor ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill (Aelodau Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion) yn mynd ati i hybu'r Gymraeg, ac i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach. Yn unol â'r gofyniad gosodwyd targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd cyfnod y Strategaeth, sef bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion yn codi o leiaf i 48.5% (sef oddeutu 1,500 yn fwy o siaradwyr Cymraeg).

Ar gyfer y strategaeth hon, cytunodd Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion i ganolbwyntio ar 3 nod strategol, fel a ganlyn:

Nod Strategol 1: Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion

Nod Strategol 2: Cynnal a chynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion

Nod Strategol 3: Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Gellir gweld copi o'r Cynllun Gweithredu yma:

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/hyrwyddo-a-hwyluso-r-iaith-gymraeg/>

Mae Fforwm Dyfodol Dwyieithog yn gweithio er mwyn sicrhau cyflawniad y Strategaeth Iaith, ac mae'r aelodau yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ynghyd â Swyddogion o sefydliadau partner sydd wedi ymrwymo i gyd-weithio er budd yr iaith Gymraeg ar draws y Sir.

Oherwydd y sefyllfa gyda Cofid 19, mae'r Cyngor yn bryderus bod y pandemig wedi arafu ein cynlluniau, ac ar ein gallu i gyrraedd ein targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ynghyd â'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion, erbyn diwedd oes y Strategaeth gyfredol. Fe wnaethom gynnal gweithdy ym mis Mawrth; er mwyn adolygu lle rydym wedi cyrraedd gyda'r Strategaeth Iaith cyfredol, gan ystyried hefyd beth yn rhagor fydd angen ei wneud er mwyn medru paratoi ar gyfer y Strategaeth olynol. Fe wnaethom ofyn i bawb gyflwyno tystiolaeth ar lafar, ac yna rydym wedi gofyn i'r holl aelodau ddanfôn gwybodaeth ysgrifenedig erbyn diwedd Ebrill.

Dyma'r cwestiynau a ddefnyddiwyd er mwyn procio'r drafodaeth:

- Ydych chi'n meddwl bod nifer siaradwyr Cymraeg yn cynyddu yng Ngheredigion heddiw? Ie /Na / aros yr un peth
- Beth sy'n gweithio'n dda?
- Am beth ydych chi'n poeni?

- Beth sydd angen digwydd?

Byddwn yn defnyddio'r ymatebion fel rhan o'r broses wrth gynnal adolygiad llawn o gyrhaeddiad y Strategaeth Iaith gyfredol. Byddwn wedyn yn mynd ati i ddatblygu Strategaeth Iaith ar gyfer cyfnod y 5 mlynedd nesaf.

ADRAN 4: Asesiad o Gydymffurfio

Cydymffurfiaeth â'r Safonau Cadw Cofnodion (147-154)

BETH SYDD ANGEN ADRODD ARNO?

Sgiliau Iaith Staff : Nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw
Recriwtio i Swyddi Gwag: Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE
Hyfforddiant Dysgu neu Wella Sgiliau Iaith: Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg
Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg: Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gan y Cyngor yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd: Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

Sgiliau Iaith Staff :

Nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, fesul lefel ALTE, yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Gwahoddwyd staff y Cyngor i hunanasesu eu sgiliau iaith gan ddefnyddio Fframwaith Lefelau Iaith ALTE mewn 3 sgil, sef siarad, ysgrifennu a darllen. Caiff sgiliau iaith eu cofnodi yn y broses recriwtio ac adolygu yn ystod y broses gwerthuso flynyddol. Mae cyfanswm o 2045 o staff wedi hunanasesu eu sgiliau iaith ac wedi cofnodi hynny ar system Ceri, hyn gan eithrio staff mewn ysgolion. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio datganiadau medru, sy'n deillio o'r fframwaith ALTE, The Association of Language Testers in Europe, set o safonau cyffredin i asesu gallu ieithyddol; mae'r dull hwn wedi ei fabwysiadu ar draws gwledydd Ewrop . Gweler y datganiadau medru yn atodiad 2.

Ceir canlyniadau sgiliau iaith y gweithlu wedi'u crynhoi yn y tabl isod; fesul 3 sgil sef gwrando a siarad; ysgrifennu a darllen.

Tabl 1: Canlyniad Sgiliau Iaith Gymraeg: Trosolwg Staff 2021-22

Gwrando / Siarad			Ysgrifennu			Darllen		
Lefel	Nifer y Staff	%	Lefel	Nifer y Staff	%	Lefel	Nifer y Staff	%
Dim sgiliau	79	4%	Dim sgiliau	180	8.80	Dim sgiliau	161	7.87
Lefel 1	394	20%	Lefel 1	453	22.15	Lefel 1	401	19.61
Lefel 2	294	14%	Lefel 2	333	16.29	Lefel 2	316	15.45
Lefel 3	312	15%	Lefel 3	271	13.25	Lefel 3	270	13.20
Lefel 4	315	15%	Lefel 4	308	15.06	Lefel 4	319	15.60
Lefel 5	651	32%	Lefel 5	500	24.45	Lefel 5	578	28.26
CYFANSWM	2045	100	CYFANSWM	2045	100	CYFANSWM	2045	100

Y Prif Benawdau:

- Mae 651 (32%) o staff sydd yn dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, sef ALTE Lefel 5, mae hyn yn gyson a phroffiliau blaenorol o sgiliau'r gweithle.
- Dim ond 79 (4%) o'r gweithlu sydd wedi nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg o gwbl. Er mwyn ceisio lleihau'r nifer o weithwyr sydd yn nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.
- O'r rhai sydd wedi dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg (ALTE 5), mae eu sgiliau llafar yn uwch na'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg. Sgiliau llafar Rhugl: 32%; Sgiliau Ysgrifennu Rhugl: 24%. Er mwyn gwella ar y canfyddiad hwn, bydd y Cyngor yn rhoi fwy o bwyslais ar y Cyrsiau Gloywi a Gwella Cymraeg Ysgrifenedig.
- Mae 5 Gwasanaeth o fewn y Cyngor gyda 40% neu fwy o'r staff sydd wedi dweud bod ganddynt sgiliau rhugl yn y Gymraeg sef ALTE lefel 5 (Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid; Y Gwasanaethau Democraataidd; Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth; Porth Cymorth Cynnar a Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant).
- Mae'r niferoedd sydd â sgiliau rhugl yn y Gymraeg o fewn y sector gofal yn parhau i fod yn destun pryder, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r prinder sgiliau Cymraeg ar draws y sector yn genedlaethol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei weithlu cyfredol.

Recriwtio i Swyddi Gwag:**Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg, ac a gategoreiddiwyd gyda lefelau ALTE**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'i ddyletswydd i gynllunio'r gweithlu, er mwyn sicrhau bod y bobl iawn, sy'n meddu ar y sgiliau iawn, ar yr adeg iawn. I gyflawni hyn o safbwynt ieithyddol ac i sicrhau bod modd darparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer trigolion Ceredigion, mae'r Cyngor yn anelu at sicrhau bod ganddo ddigon o weithwyr sy'n gymwys o ran siarad ac ysgrifennu Cymraeg. Gwenir hyn drwy asesu pob swydd newydd neu wag ar gyfer y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen er mwyn medru cyflawni'r swydd.

Yn rhan o'r Polisi Hybu a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol (Rhagfyr 2017) cafwyd penderfyniad bod angen i bob gweithiwr fodloni gofynion Lefel 1 'siarad a gwrando' sef cwrtseisi

Tudalen 35

iaith sylfaenol o leiaf pan fydd yn cael ei benodi, neu cyn pen chwe mis ar ôl hynny. Bydd y Cyngor yn annog Swyddogion i gwblhau'r pecyn e-ddysgu 10 awr 'Croeso Cymraeg' sydd wedi ei ddatblygu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, hyn fel bod modd iddynt ddatblygu sgiliau cwrteisi iaith sylfaenol. Yn dilyn y penderfyniad hwn, mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd, ac felly mae'n rhaid pennu'r lefel iaith sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r swydd honno drwy ddefnyddio'r fframwaith ALTE (y datganiadau medrau); a chofnodi hynny ar y ffurflen 'Caniatâd i Lenwi Swydd Newydd'. Mewn achosion penodol os yw'n amhosib recriwtio ar y lefel ALTE disgwylidig, ceir cytundeb i osod amod hyfforddiant yn y contract cyflogaeth. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gyrraedd y safon ALTE angenrheidiol o fewn 2 flynedd i'r apwyntiad. Disgwylir y bydd rheolwr llinell yn monitro hyn.

Gofynion ieithyddol swyddi a hysbysebwyd 2021-2022		
	Nifer	Canran
Cyfanswm nifer y swyddi a hysbysebwyd	598	
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5	65	11%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4	115	19%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3	294	49%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2	20	3%
Nifer y swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1	104	18%
Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0	0

Mae'r Cyngor yn parhau i hysbysebu am sgiliau iaith Gymraeg rhugl, ALTE 5 mewn nifer o swyddi (11%); caiff y nifer uchaf o swyddi eu hysbysebu drwy ofyn am lefel iaith ALTE 3 (49%) Mae ALTE lefel 3 yn gofyn bod person yn medru deall a chymryd rhan mewn sgysiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa, lle mae lefel 5 yn golygu rhuglder llwyr yn y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod personau yn cael dewis iaith wrth gynnal eu cyfweiliad i swydd, yn unol a Safon 137.

Ymgeisydd: Dewis iaith Mewn Cyfweiliad		
Saesneg	2382	81%
Cymraeg	517	18%
Anhysbys	25	1%

Mae'r nifer sy'n dewis cynnal eu cyfweiliad yn y Gymraeg yn parhau i fod yn isel o gymharu gyda'r nifer sy'n dewis cynnal eu cyfweiliad yn Saesneg. Ym mis Ebrill eleni, mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi cymryd nifer o gamau er mwyn tynnu sylw bod modd cyflwyno ffurflenni cais a chynnal cyfweiliad yn dewis iaith yr ymgeisydd.

Rydym yn gweithredu polisi dwyieithog. Gwahoddir ymgeisydd i wneud cais yn Gymraeg, ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg.

Tudalen 36

Mae'r faner uchod wedi'i gynnwys ar dudalen gartref 'Pori Swyddi'. Mae gwybodaeth ynghylch defnydd y Gymraeg wrth recriwtio wedi'i osod yn y tudalennau 'gwybodaeth a chwestiynau cyffredin'; sy'n ymddangos ar ddiwedd pob hysbyseb swydd.

[Pori Swyddi | Ceredigion County Council Careers](#)

Mae system Hunanwasanaeth Ceri yn gweithredu'n gwbl ddwyieithog; fodd bynnag er bod gan y Cyngor nifer uchel o siaradwyr Cymraeg, mae'r nifer sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg yn isel.

laith	Nifer	Canran
Saesneg	2634	72%
Cymraeg	184	5%
Anhysbys	844	23%

Mae'r niferoedd sy'n dewis derbyn Newyddion HR News yn y Gymraeg yn isel, ac yn sicr nid yw'r niferoedd sy'n dewis defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn gweithlu y Cyngor. Byddwn yn mynd ati eto i edrych ar ddulliau o hyrwyddo bod fersiwn Cymraeg neu dwyieithog hefyd ar gael.

laith	Nifer	Canran
Saesneg	744	20%
Cymraeg	97	3%
Dwyieithog	313	8%
Anhysbys	2547	69%

Hyfforddiant Dysgu Cymraeg a Gwella Sgiliau Iaith

Nifer yr aelodau staff a fynychodd gysiau hyfforddi naill ai i ddysgu neu wella eu sgiliau iaith Gymraeg:

Mae'r Cyngor wedi sefydlu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ariannu Tiwtor Cymraeg Gwaith. Mae medru cyflogi Tiwtor Dysgu Cymraeg yn y gweithle wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ddarpariaeth dysgu Cymraeg y Cyngor.

Darparwyd addysg ar lefelau Mynediad hyd at Uwch 3 eleni, sef holl ystod ddysgu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Golygai hyn y cynhaliwyd 7 dosbarth dwys wythnosol gan y Swyddog Hyfforddi, oll ar lefelau gwahanol. Dyma'r ddarpariaeth fwyaf gynhwysfawr a gynigiwyd erioed ar y rhaglen Cymraeg Gwaith yng Ngheredigion, ac adlewyrchir llwyddiant y ddarpariaeth honno yn niferoedd uchel y myfyrwyr ar draws y lefelau (gweler tabl isod). Darperir hefyd hyfforddiant un i un i Swyddog Arweiniol Corfforaethol newydd o fewn y Cyngor. Cynhelir y rhain fel dosbarthiadau hybrid, gan ddefnyddio system hunan-astudio'r Ganolfan Genedlaethol ynghyd a sesiynau gyda'r Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith bob tair wythnos. Bydd rhain yn rhedeg dros yr haf hefyd.

Mynegwyd llawer o ddiddordeb i sefyll arholiadau Mynediad ym mis Ionawr 2023, ac felly dyna yw'r targed ar gyfer ailgydio ag arholiadau ffurfiol fel rhan o'r cynllun.

Ni threfnwyd digwyddiadau dysgu anffurfiol mawrion rhwng Ionawr a Mawrth 2022 er mwyn canolbwyntio ar swmp y dysgu dwys. Ond, cynhaliwyd dau ddigwyddiad llwyddiannus cyn hynny yn nhymor y Nadolig, ac ailgydir yn y digwyddiadau yn dilyn y Pasg.

Bydd y Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith yn darparu sesiynau hyfforddi i Aseswyr Budd Pennaf ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ar draws Ceredigion, Sir Gar, a Sir Benfro ym

Tudalen 37

mis Mai 2022. Trefnwyd rhain ar y cyd a'r Porth Gofal yng Ngheredigion a thîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor.

Trefnir cwrs hyfforddi arbennig ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cwsmer CLIC mewn cydweithrediad a Swyddog Cymraeg y Cyngor yn nhymor yr Haf.

Teitl y Cwrs	Nifer mynychu
Cwrs Mynediad	22 + 1 (cwrs un i un mynediad)
Cwrs Sylfaen	15
Cwrs Sylfaen i Ganolradd	16
Cwrs Canolradd	7
Cyrsiau Uwch (lefelau 1, 2 a 3)	21
Cyfanswm Dysgwyr	82

Adnoddau Allgyrsiol	
Clwb Cinio	Sesiynau wythnosol o 10 myfyriwr. Cwis Shwmae Sumae, 34 o ymgeiswyr. Partïon Nadolig, 40 o fynychwyr. Ni chynhaliwyd digwyddiadau mawrion dros dymor y Gwanwyn. Dychwelir at y digwyddiadau yn nhymor yr Haf.
Ffrind Iaith	Mynegodd 20 o fyfyrwyr ddiddordeb yn y cynllun, ac eir ati i'w paru a mentoriaid ar gyfer tymor yr Haf

Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol Cyfrwng Cymraeg:

Sut y gall staff y Cyngor gael mynediad at gyrsiau hyfforddi yn Gymraeg:

Hyrwyddir cyfleoedd hyfforddi yn yr erthygl Newyddion Adnoddau Dynol wythnosol a gyhoeddir i'r holl staff yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae digwyddiadau hyfforddi hefyd yn cael eu hyrwyddo trwy Cerinet, system fewnwyd y Cyngor. Caiff staff ddewis mynd i mewn i'r safle yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gall staff chwilio am gyrsiau ar Cerinet, trwy deipio 'Cymraeg', bydd y cyrsiau sydd ar gael yn cael eu dangos gan gynnwys y gwersi Cymraeg Gwaith. Maent yn gallu gweld ac archebu presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi neu gofrestru eu diddordeb trwy roi eu henw ar restr aros. Dangosir teitlau cyrsiau yn Saesneg a nodir y rhai a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg gydag 'c'.

Oherwydd y pandemig Covid, addaswyd yr holl hyfforddiant i'w gyflwyno ar-lein a'i ddarparu trwy Microsoft Teams. Nid oedd rhai hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg mewnol ar gael i gyflwyno

Tudalen 38

cyrsiau cyfrwng Cymraeg gan fod gofyn iddynt flaenoriaethu a chefnogi ymateb Covid yr Awdurdodau Lleol. Felly ni chafodd rhai sesiynau a fyddai'n rhan o'r calendr blynyddol arferol eu cyflwyno.

Safon WL Cyf	Gofyniad -	rhif/ %
152	Cyfanswm y sesiynau hyfforddi a gynigiwyd gan y Cyngor i staff,	788 o sesiynau 6,622 o staff wedi mynychu
	Cyfanswm a % y sesiynau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg i staff	Cynigiwyd 64 o sesiynau (8%) 29 wedi'u canslo, 20 ohonynt yn niferoedd annigonol.
	Cyfanswm a % y sesiynau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog i staff	Cynigiwyd 67 (8.5%) 29 wedi'u canslo fel yr uchod
152	Cyfanswm Nifer a % y staff a fynychodd gyrsiau a ddarparwyd gan y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn	259 (4%) o staff

Safon WL Cyf	Enw'r cwrs	Nifer fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer fynychodd y fersiwn Saesneg	% fynychodd y fersiwn Gymraeg
128	Sgiliau cyfweld	Heb ei gyflwyno	22	0
128	Rheoli Perfformiad	Heb ei gyflwyno	Heb ei gyflwyno	0
128	Gweithdrefn Gwyno a Disgyblu	Heb ei gyflwyno	Heb ei gyflwyno	0
128, 133	Sesiynau Sefydlu – sy'n cynnwys gwybodaeth am safonau'r Gymraeg.	Heb ei gyflwyno	127	0
128	Delio â'r Cyhoedd (hy Gofal Cwsmer: Cwsmer yn Gyntaf)	Heb ei gyflwyno	11	0
128	Iechyd a Diogelwch	51	924	5%
129, 132	Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a Safonau Iaith,	Heb ei gyflwyno, dim ond E-ddysgu oedd ar gael eleni		0
	Rhaglen e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith a'r Safonau	41	304	12%

Mae gofynion Safonau'r Gymraeg yn cael ei drafod fel rhan o'r broses sefydlu gorfforaethol; at hyn caiff yr holl staff newydd eu cyfeirio at Ganllaw Safonau'r Gymraeg: 'Yr hyn sydd angen i mi ei wneud'. Mae'r rhaglen e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith a Safonau'r Gymraeg hefyd yn rhaglen orfodol, ac mae'n ofynnol i staff ei gwblhau fel rhan o'r rhaglen sefydlu corfforaethol. Nodaf nad oedd modd cyflwyno sesiwn sefydlu drwy gyfrwng Y Gymraeg eleni, a hynny oherwydd bod angen staff cyfrwng Cymraeg i flaenoriaethu a chefnogi ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r Tîm Hyfforddiant Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno llwyfan dysgu newydd; System Rheoli Dysgu. Bydd y system newydd hwn yn gweithio yn Gymraeg a Saesneg; gan nad oedd yr hen system yn gweithio'n llawn yn y Gymraeg.

Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd:

Nifer y cwynion a dderbyniwyd sy'n Gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg

Mae'r cyngor wedi cyhoeddi 'Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol' ynghyd â chanllaw 'Sut i Wneud Cwyn', sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan gorfforaethol y Cyngor.

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/cwynion-corrforaethol/>

Mae'r Polisi hwn yn cyfeirio at ddyletswydd y Cyngor sy'n ymwneud â derbyn a thrafod cwynion. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn medru cyflwyno eu pryderon drwy weithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor, gellir gwneud hynny yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â dewis iaith. Mae'r polisi hefyd yn nodi, os bydd yr achwynydd yn anfodlon â'r ymateb gan y Cyngor, gall yr achwynydd ofyn am gyngor pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg.

At hyn mae dolen ar dudalen Safonau'r Gymraeg y Cyngor yn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd sut gallant wneud cwyn ynghylch cydymffurfiaeth gyda'r Safonau neu fethiant i dderbyn gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. Gweler y testun isod:

Cwynion Iaith

Os hoffech wneud cwyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg neu fethiant ar ran y Cyngor i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, defnyddiwch weithdrefn gwyno'r Cyngor ar y tudalen [Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion](#).

Mae gennych hefyd hawl i gyfeirio unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg at Gomisiynydd y Gymraeg: [Gwefan Comisiynydd y Gymraeg](#)

Dyma'r ddolen at y manylion ar wefan y Cyngor:

<http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/iaith-gymraeg/safonau-r-gymraeg/>

Fel rhan o drefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor, caiff Swyddog Polisi Iaith Gymraeg wybod ynghylch pob cwyn sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg; a hynny er mwyn cynghori swyddogion ac ystyried camau gweithredu pellach.

Cwynion a Dderbyniwyd

Er bod y Cyngor yn rhoi gwybod bod modd cyflwyno cwynion yn y Gymraeg, dim ond 1 cwyn a dderbyniwyd yn Gymraeg, allan o 139 o gwynion a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr achwynydd hwnnw ymateb llawn yn y Gymraeg yn unol â'r Polisi Cwynion Corfforaethol y Cyngor.

Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol	
Dosbarth o safonau	Nifer
Safonau cyflenwi gwasanaethau	2
Safonau llunio polisi	0
Safonau gweithredu	0

Derbyniwyd 2 gŵyn yn ystod y cyfnod adrodd hwn a oedd yn ymwneud â methiant ymddangosiadol y Cyngor i gadw at Safonau'r Gymraeg. Aethpwyd i'r afael â'r ddau achos yn unol â Cham 1 Polisi Pryderon a Chwynion y Cyngor, ac nid oedd angen symud ymlaen at ymchwiliad ffurfiol (h.y Cam 2), gan bod modd eu datrys yn dilyn ystyriaeth gan reolwyr y gwasanaethau perthnasol. Mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn amlinellu manylion y cwynion a'r camau adferol a gymerwyd i'w datrys. Yn ogystal, rhoddir gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd gan y 2 Wasanaeth o ganlyniad i'r cwynion a dderbyniwyd.

Cŵyn 1

Cyf: 19612 (Cam 1)
Derbyniwyd: 07/04/2021
Gwasanaeth: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol: Uned Cludiant Teithwyr Corfforaethol
Canlyniad: Cenfogwyd y gŵyn
Ymateb: 26/04/2021

Crynodeb o'r gŵyn:

Methiant gan yr Unded Cudiant Teithwyr Corfforaethol i ymateb i'r Achwynydd yn Gymraeg, eu dewis iaith; roedd hyn yn groes i ofynion Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion.

Canfyddiadau:

Cadarnhad bod y gwall hwn wedi digwydd. Canfu'r ymchwiliad fod y gwall wedi digwydd wrth gofnodi dewis iaith ar adeg y cyswllt cyntaf.

Camau Adfer:

Ymddiheurodd y rheolwr am y camgymeriad a darparodd gopi o'r ymateb yn Gymraeg. Cyfeiriwyd y mater hefyd at Swyddog Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor.

Gwersi a ddysgwyd:

- Mae Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer Clic wedi cael eu hatgoffa o'r protocol i gofnodi dewis iaith yn gywir ar adeg y cyswllt cyntaf, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.
- Mae'r Swyddog a ddarparodd yr ymateb wedi ei atgoffa o ddyletswydd statudol i ymateb yn newis iaith y cwsmer, a hefyd wedi ei atgoffa o'r gefnogaeth a'r opsiynau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg.
- Mae'r Swyddog a ddarparodd yr ymateb yn mynychu cwrs Ymwybyddiaeth Safonau'r Gymraeg, ac wedi derbyn copi o'r Canllaw: "Safonau'r Gymraeg: Yr hyn sydd angen i mi ei wneud."

Cŵyn 2

Cyf: 19855 (Cam 1)
Derbyniwyd: 18/04/2021
Gwasanaeth: Gwasanaeth Economi ac Adfywio: Gwasanaeth Cynllunio
Canlyniad: Cenfogwyd y gŵyn
Ymateb: 21/04/2021

Crynodeb o'r gŵyn:

Methiant gan y Gwasanaeth Cynllunio i gyhoeddi gohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg ar ei dudalen gwefan. Ar y wefan, cyhoeddwyd fersiwn a oedd wedi'i gyfieithu o'r llythyr, roedd hyn yn groes i ofynion Safonau'r Gymraeg.

Canfyddiadau:

Darganfu'r ymchwiliad fod y swyddog wedi cyfieithu'r llythyr ar unwaith at eu defnydd mewnol eu hunain. Yr arferiad polisi ar y wefan gynllunio, yw cyhoeddi'r llythyr yn yr iaith y derbyniwyd yr ohebiaeth. Fodd bynnag, y tro hwn cyhoeddwyd y fersiwn wedi'i chyfieithu ar y wefan, ac ni adnabuwyd y camgymeriad nes i'r Achwynydd ddwyn y mater i sylw'r Gwasanaeth.

Camau Adfer:

Cyflwynwyd ymddiheuriad ac eglurhad am y camgymeriad, a rhoddwyd y fersiwn Cymraeg gwreiddiol i fyny ar y wefan.

Gwersi a ddysgwyd:

- Atgoffwyd staff o fewn y gwasanaeth cynllunio o'u dyletswydd i gydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau bod dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei barchu.
- Cynghorwyd staff cynllunio hefyd i wneud yn siwr bod llythyrau'n cael eu gwirio cyn eu cyhoeddi ar y Wefan Cynllunio, fel eu bod yn cael eu cyhoeddi yn iaith yr awdur, yn unol â polisi cynllunio y Cyngor.

ADRAN 5: Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd er mwyn cyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg ynghyd â chyflwyno'r data penodol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Rydym yn falch o'r cynnydd rydym wedi ei wneud ond yn cydnabod bod yna welliannau i'w gwneud o hyd, er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cyfnod y pandemig a'r gweithio o bell wedi creu nifer o heriau ynghlwm wrth gynllunio ieithyddol, a bydd angen bod yn wylidwrus ohonynt wrth symud ymlaen i'r cyfnod nesaf.

Heriau wrth symud ymlaen:

Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro

Mae'n rhaid cydnabod bod gweithio o bell wedi cynnig cyfleoedd newydd i staff, ond o bosib mae'n cael effaith llai cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Mae'n llawer fwy anodd monitro defnydd y Gymraeg pan bod pawb yn gweithio o gartref. Mewn sefyllfa swyddfa roedd defnydd y Gymraeg yn organic, gyda chydweithwyr yn medru annog ei gilydd. Roedd y Gymraeg i'w chlywed drwy gyswllt ffurfiol ond hefyd drwy gyswllt anffurfiol er enghraifft ar y corridor, dros baned, dros y llungopiwr neu yn y ffreutur. Mae'n bosib iawn y bydd nifer fawr o swyddogion ddim yn clywed y Gymraeg, a gall hyn effeithio ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth. Oherwydd eu bod yn gweithio o gartref mae rhai siaradwyr Cymraeg yn anghofio'r arfer i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd angen gweithio'n fwy caled i atgoffa aelodau staff bod ganddynt yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg; gan hefyd sicrhau bod ganddynt yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda defnyddwyr gwasanaeth; hyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fedru cydymffurfio gyda gofynion Safonau'r Gymraeg fel sydd wedi'i gytuno. Wrth i'r Cyngor weithredu y Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro, bydd angen i'r Uned Iaith sicrhau bod digon o gefnogaeth ac adnoddau ar gael i staff i fedru gweithredu yn union â gofynion Safonau'r Gymraeg. Un o'r gweithredoedd hynny bydd adolygu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar y fewnrwyd; er mwyn sicrhau bod y cyngor a'r templedi diweddera ar gael yn hwylus.

Recriwtio

Yn y cyfnod adsefydlu ar ôl y pandemig, mae sawl sector ar draws yr Awdurdod yn ei chael hi'n anodd iawn i recriwtio gweithwyr proffesiynol; er enghraifft mae prinder mawr o weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n medru'r Gymraeg. Mae'n allweddol bwysig sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau priodol er mwyn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg. Wrth symud ymlaen bydd angen adolygu'r dull mae'r Cyngor yn asesu gofyniad sgiliau iaith ar gyfer swyddi gwag a newydd. Er mwyn sicrhau nad yw ein gallu i gynnig y gwasanaeth Cymraeg rhagweithiol yn lleihau/gwanhau, mae angen i ni weithio i sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r hyder priodol. Mae'r ffaith bod y Gwasanaeth Gofal Cwsmer Clic er enghraifft yn

rhoi pwyslais uchel ar sgiliau iaith fel rhan o'i gynllun recriwtio wedi sicrhau bod modd darparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel o'r cychwyn cyntaf.

Dysgu a Gwella Sgiliau iaith

Mae'n amlwg bod y newid i ddarparu hyfforddiant dysgu Cymraeg ar-lein wedi cynnig cyfleoedd newydd i rai aelodau o staff, fe wnaeth 80 o staff gymryd mantais o'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, mae'n bosib iawn y bydd y newid hwn yn arafu datblygiad rhai unigolion gan nad yw'r un cyfleoedd ar gael gartref i ymarfer eu sgiliau rhwng y gwersi mwy ffurfiol. Bydd rhai dysgwyr ddim yn gweld na chlywed y Gymraeg am gyfnodau hir rhwng y gwersi ffurfiol. Felly, yr her yw cadw'r momentwm wrth weithio o gartref. Mae'r Cyngor yn bwriadu adfywio'r Cynllun Ffrind iaith, lle mae dysgwr yn cael ei baru gyda siaradwr Cymraeg, mynegodd 20 o ddysgwyr ddiddordeb yn y cynllun, ac eir ati i'w paru a mentoriaid ar gyfer tymor yr Haf. Bydd angen ail gyflwyno'r cyrsiau gloywi a gwella Cymraeg er mwyn rhoi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus. Mae gan y Cyngor 21 aelod o staff sy'n mynychu cwrs Cymraeg Uwch, bydd angen i ni weithio'n galetach gyda'r cohort yma er mwyn sicrhau eu bod yn croesi'r bont i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. O ran datblygu sgiliau cwrsteisi iaith sylfaenol, mae'angen i'r Cyngor yn gwneud gwell defnydd o'r cyrsiau ar-lein sydd ar gael drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, bydd hyn wedyn yn rhyddhau ein Twitor Cymraeg Gwaith i ganolbwyntio ar lefelau uwch o ddysgu Cymraeg. Byddwn yn edrych ar ein trefniadau yn y cyfnod nesaf.

Defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cymraeg

Mae Canllaw Comisiynydd y Gymraeg 'Hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg' wedi ceisio edrych ar beth sydd yn gyrru pobl i wneud penderfyniadau o safbwynt defnydd iaith; sut mae pobl yn dewis y gwasanaeth Cymraeg ai peidio?

"Mae defnyddwyr yn dueddol o ddilyn y norm, a derbyn y dewis diofyn. Oherwydd hynny, hoffem weld sefydliadau'n dylunio'u gwasanaethau fel nad oes angen gwneud unrhyw ymdrech neu benderfyniad ychwanegol er mwyn defnyddio'r Gymraeg." Dylai defnyddwyr ddim gorfod mynd allan o'u ffordd i ddefnyddio'r Gymraeg. O edrych ar pytiau o ddata sydd ar gael ynghylch y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, ceir argraff bendant nad yw'r nifer o bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg o fewn y Sir. Yn Adroddiad Sicrwydd 'Hawlio Cyfleoedd' mae Comisiynydd y Gymraeg yn trafod pa newidiadau allai arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg. Themâu amlwg:

- a oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael ac o ansawdd cyfuwch â'r Saesneg
- angen codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael a'u gwneud yn glir
- angen cynnig y Gymraeg gyntaf neu'n ddiodyfyn
- pobl ddim eisiau ffwdan nac embaras – ddim yn debygol o ofyn yn benodol am wasanaeth Cymraeg os nad yw ar gael yn syth
- angen dilyniant drwy wahanol agweddau ar gyswllt gyda'r Cyngor
- pobl yn amharod i gwyno am ddiffyg gwasanaeth, gan ei fod yn drafferthus a'u bod yn poeni am gael eu trin yn llai ffafriol
- angen defnyddio iaith ddealladwy.

Yn ystod y cyfnod nesaf, bydd angen edrych ar sut mae'r Cyngor yn darparu'r cynnig rhagweithiol o wasanaeth Cymraeg, ac sut mae'n trefnu ei wasanaethau fel bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt.

Cynllun Gweithredu

Yn ystod y cyfnod nesaf o weithredu'r Polisi Iaith byddwn yn anelu at ystyried y meysydd gweithredu canlynol:

- Datblygu pecyn hyfforddi ar ofynion Safonau'r Gymraeg ar gyfer cynghorwyr yn dilyn etholiad Mis Mai 2022.
- Adolygu Polisi Grantiau er mwyn sicrhau bod arfer da Comisiynydd y Gymraeg wedi ei amlygu.
- Adolygu Canllaw Asesiad Effaith Integredig, er mwyn helpu Swyddogion i nodi unrhyw effaith ar y Gymraeg.
- Llunio adroddiad sy'n amlinellu cyrhaeddiad Strategaeth Iaith Ceredigion, a pharatoi ar gyfer datblygu Strategaeth ar gyfer cyfnod y 5 mlynedd nesaf.
- Cydlynu grŵp prosiect i ddatblygu 'Pecyn Croeso' mewn ymgais i geisio cymhathu mewn fudwyr: gwaith yn deillio o Fforwm Dyfodol Dwyieithog
- Cyflwyno cynllun sy'n argymhell gwelliannau i gyflawni gofynion y Safonau Gweithredu - defnyddio'r Gymraeg yn fewnol â hyrwyddo'r cysyniad o weithle dwyieithog
- Adnewyddu tudalennau 'Iaith ar Waith' ar fewnwyd y Cyngor, cynnwys canllawiau cyfredol a datblygu deunydd cymorth atodol sydd ei angen i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo staff i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Adolygu sut mae'r Cyngor yn rhoi'r cynnig o ddewis iaith
- Prosiect hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn cartrefi preswyl (dechrau 2019 ond gohirio oherwydd Covid-19). Asesu a fydd modd ail ddechrau'r prosiect.

Tudalen 44

Atodiad 1: Data Sgiliau Iaith 2021-22 fesul Gwasanaeth

Sgiliau Siarad & Gwranddo

Adran	Nifer staff â sgiliau Cymraeg	Nifer staff heb sgiliau Cymraeg	Canran (%) staff â sgiliau Cymraeg
Yr holl sefydliad	Cyfanswm: 1966 ALTE 5: 651 ALTE 4: 315 ALTE 3: 312 ALTE 2: 294 ALTE 1: 394	79 3.86%	Cyfanswm: 96.14% ALTE 5: 31.83 ALTE 4: 15.40 ALTE 3: 15.26 ALTE 2: 14.38 ALTE 1: 19.27
Gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid	Cyfanswm: 136 ALTE 5: 55 ALTE 4: 34 ALTE 3: 17 ALTE 2: 21 ALTE 1: 9	3 2.16%	Cyfanswm: 97.84% ALTE 5: 39.57 ALTE 4: 24.46 ALTE 3: 12.23 ALTE 2: 15.11 ALTE 1: 6.47
Gwasanaeth Democraataidd	Cyfanswm: 114 ALTE 5: 47 ALTE 4: 23 ALTE 3: 23 ALTE 2: 10 ALTE 1: 11	3 2.56%	Cyfanswm: 97.44% ALTE 5: 40.17 ALTE 4: 19.66 ALTE 3: 19.66 ALTE 2: 8.55 ALTE 1: 9.40
Gwasanaeth Economi a Menter	Cyfanswm: 202 ALTE 5: 41 ALTE 4: 24 ALTE 3: 34 ALTE 2: 30 ALTE 1: 73	14 6.48%	Cyfanswm: 93.52% ALTE 5: 18.98 ALTE 4: 11.11 ALTE 3: 15.74 ALTE 2: 13.89 ALTE 1: 33.80
Gwasanaeth Cyllid a Chaffael	Cyfanswm: 99 ALTE 5: 25 ALTE 4: 18 ALTE 3: 15 ALTE 2: 23 ALTE 1: 18	1 1%	Cyfanswm: 99% ALTE 5: 25 ALTE 4: 18 ALTE 3: 15 ALTE 2: 23 ALTE 1: 18
Gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	Cyfanswm: 245 ALTE 5: 53 ALTE 4: 51 ALTE 3: 37 ALTE 2: 42 ALTE 1: 62	6 2.39%	Cyfanswm: 97.61% ALTE 5: 21.12 ALTE 4: 20.32 ALTE 3: 14.74 ALTE 2: 16.73 ALTE 1: 24.70
Gwasanaeth Cyfreithiol a Llywodraethu	Cyfanswm: 17 ALTE 5: 3 ALTE 4: 4 ALTE 3: 6 ALTE 2: 2 ALTE 1: 2	2 10.53%	Cyfanswm: 89.47% ALTE 5: 15.79 ALTE 4: 21.05 ALTE 3: 31.58 ALTE 2: 10.53 ALTE 1: 10.53
Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth	Cyfanswm: 50 ALTE 5: 22 ALTE 4: 9 ALTE 3: 8 ALTE 2: 9 ALTE 1: 2	1 1.96%	Cyfanswm: 98.04% ALTE 5: 43.14 ALTE 4: 17.65 ALTE 3: 15.69 ALTE 2: 17.65 ALTE 1: 3.92

Tudalen 45

Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Cyfanswm: 125 ALTE 5: 36 ALTE 4: 26 ALTE 3: 28 ALTE 2: 15 ALTE 1: 20	10 7.41%	Cyfanswm: 92.59% ALTE 5: 26.67 ALTE 4: 19.26 ALTE 3: 20.74 ALTE 2: 11.11 ALTE 1: 14.81
Gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar	Cyfanswm: 245 ALTE 5: 105 ALTE 4: 59 ALTE 3: 35 ALTE 2: 26 ALTE 1: 20	3 1.21%	Cyfanswm: 98.79% ALTE 5: 42.34 ALTE 4: 23.79 ALTE 3: 14.11 ALTE 2: 10.48 ALTE 1: 8.06
Gwasanaeth Porth Cynnal	Cyfanswm: 116 ALTE 5: 33 ALTE 4: 11 ALTE 3: 17 ALTE 2: 21 ALTE 1: 34	4 3.33%	Cyfanswm: 96.67% ALTE 5: 27.5 ALTE 4: 9.17 ALTE 3: 14.17 ALTE 2: 17.50 ALTE 1: 28.33
Gwasanaeth Porth Gofal	Cyfanswm: 328 ALTE 5: 84 ALTE 4: 33 ALTE 3: 72 ALTE 2: 65 ALTE 1: 74	27 7.61%	Cyfanswm: 92.39% ALTE 5: 23.66 ALTE 4: 9.30 ALTE 3: 20.28 ALTE 2: 18.31 ALTE 1: 20.85
Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant	Cyfanswm: 334 ALTE 5: 156 ALTE 4: 30 ALTE 3: 27 ALTE 2: 39 ALTE 1: 82	5 1.47%	Cyfanswm: 98.53% ALTE 5: 46.02 ALTE 4: 8.85 ALTE 3: 7.96 ALTE 2: 11.50 ALTE 1: 24.19
Gwasanaeth Arweinyddiaeth	Cyfanswm: 3 ALTE 5: 2 ALTE 4: # ALTE 3: # ALTE 2: # ALTE 1: 1	1 25%	Cyfanswm: 75% ALTE 5: 50 ALTE 4: # ALTE 3: # ALTE 2: # ALTE 1: 25

Fframwaith ALTE ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion

Datganiadau Medru...

Lefel	Gwrando/Siarad	Darllen	Ysgrifennu
1	<ul style="list-style-type: none"> • Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir. • Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu ar y ffôn. • Medru agor a chloi sgwrs. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall testun byr ynglŷn â phwnc cyfarwydd pan wedi ei gyfleu mewn iaith syml, e.e. arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau syml, cynnwys agenda. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cyngor. • Medru ysgrifennu cais syml i gydweithiwr, e.e. Hwn a hon wedi galw.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall craidd sgwrs. • Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais am siarad gyda rhywun. • Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml. • Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall y rhan fwyaf o adroddiadau byrion a chyfarwyddiadau arferol o fewn arbenigedd y gwaith, â bod digon o amser wedi ei ganiatáu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor.
3	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa. • Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. • Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall y rhan fwyaf o'r adroddiadau, dogfennau a gohebiaeth y byddai disgwyl eu trafod yng nghwrs arferol y gwaith. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol.

4	<ul style="list-style-type: none"> • Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghydestun y pwnc gwaith. • Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith. • Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol. • Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall gohebiaeth ac adroddiadau pwnc wedi eu llunio mewn cywair safonol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon ebost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth golygyddol.
5	<ul style="list-style-type: none"> • Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus yng nghyswllt pob agwedd ar y gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif. • Medru cyfrannu i gyfarfodydd a darparu cyflwyniadau yn rhugl a hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru deall adroddiadau, dogfennau ac erthyglau y byddai disgwyl eu darllen yng nghwrs arferol y gwaith, gan gynnwys cysyniadau cymhleth a fynegir mewn iaith astrus. 	<ul style="list-style-type: none"> • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith. • Medru llunio nodiadau manwl tra'n cymryd rhan lawn mewn cyfarfod.

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

Cadeirio a Chynnal Pwyllgorau Dwyieithog

Pam cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog?

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu'r egwyddor, na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai personau yng Nghymru fedru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Ieithoedd swyddogol Cyngor Sir Ceredigion yw'r Gymraeg a'r Saesneg a bydd iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweithrediad y Cyngor.

O dan drefn Safonau'r Gymraeg mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ceredigion i gydymffurfio â 14 o Safonau sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, a hynny er mwyn hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn ehangach. Gellir darllen Safonau'r Gymraeg yn llawn drwy ddilyn y ddolen yma: Safonau'r Gymraeg.

Cadeirio Pwyllgor

Mae gan y Cadeirydd a'r swyddogion arweiniol ran allweddol i'w chwarae'n cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a normaleiddio'r arfer o gynnal cyfarfodydd dwyieithog. Y nod wrth gadeirio cyfarfod dwyieithog yw annog pawb i ddefnyddio'i ddewis iaith a'i gwneud yn gwbl naturiol a rhwydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol a newydd.

Bydd gan y cadeirydd gyfraniad allweddol at sicrhau hyn drwy sefydlu awyrgylch y cyfarfod a chreu amodau a fydd yn gwrthweithio'r duedd i droi i'r Saesneg. Gall cadeirydd, trwy ei agwedd, ddangos mai'r peth naturiol i bob siaradwr Cymraeg yw siarad yn y Gymraeg ac nad yw'n anghwrtais siarad Cymraeg ym mhresenoldeb pobl uniaith Saesneg.

Arfer sefydlog Cyngor Sir Ceredigion yw cynnal ei bwyllgorau democrataidd trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cyfieithu ar gyfer y rhai nad ydynt yn medru'r Gymraeg. Pan fydd Cadeirydd yn cynnal cyfarfod, yn ddelfrydol dylai gadeirio'r cyfarfod yn Gymraeg. Mae hynny'n hwb i'r iaith oherwydd mae'n normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg a'r gwasanaeth cyfieithu o'r cychwyn cyntaf. Mae'n sefydlu statws y Gymraeg yn y trafodion ac mae'n rhoi arwydd cadarnhaol ac anogaeth i'r swyddogion a'r gynulleidfa siarad Cymraeg. Mae 'Cadeirio yn Gymraeg' yn golygu llywio'r drafodaeth yn Gymraeg yn unig ac ymateb yn Gymraeg i'r drafodaeth - hyd yn oed os yw'r drafodaeth a'r cwestiynau yn Saesneg. Cofiwch na fydd y di-Gymraeg o dan anfantais o gwbl, oherwydd mi wnaiff y cyfieithydd sicrhau bod pawb yn gallu cyfranogi'n llawn.

Os nad yw'r Cadeirydd yn medru'r Gymraeg neu'n swil wrth gyflwyno'n Gymraeg, dylid o leiaf groesawu pawb i'r cyfarfod ynghyd â chloi'r cyfarfod yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dylid rhoi gwybod ar ddechrau'r cyfarfod bod modd cyfrannu yn y naill iaith. Mae'r ystyriaethau hyn yn bwysig o ran peri i Gymry Cymraeg deimlo'n gartrefol ac mae'n dangos iddynt bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal a bod croeso iddynt siarad Cymraeg os ydynt am gyfrannu.

Os ydych yn cadeirio cyfarfod dwyieithog dyma rai pwyntiau defnyddiol:

- Croesawch bawb i'r cyfarfod yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Esboniwch mai cyfarfod dwyieithog ydyw a bod croeso i bawb gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Cyflwynwch y cyfieithydd. Sicrhewch fod clustffon gan bawb sydd angen un a'u bod yn gweithio'n iawn.
- Gall y Cadeirydd ateb pwyntiau a sylwadau a wneir yn Gymraeg *ac yn Saesneg* yn Gymraeg.
- Trowch iaith y cyfarfod yn Gymraeg eto os oes tueddiad i siarad yn Saesneg ar ôl i rywun siarad Saesneg
- Gall y Cadeirydd gadeirio yn Gymraeg yn unig os yw'n dymuno gwneud hynny. Fel rheol mae hynny'n ennyn hyder ymhlith siaradwyr eraill.
- Gwnewch bopeth posibl i sicrhau bod cyfarfod dwyieithog yn llifo'n naturiol wrth droi o'r naill iaith i'r llall
- Caewch y cyfarfod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfrannu i'r Drafodaeth

Os ydych chi'n siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, bydd y Cyngor yn croesawu cyfraniadau gennych yn Gymraeg yn y cyfarfod. Peidiwch â phoeni nad yw eich Cymraeg chi'n ddigon da. Rhowch gynnig arni! Mater o arfer yw e! Peidiwch â phoeni os bydd yn rhaid i chi ddefnyddio geiriau Saesneg yma ac acw yn eich Cymraeg – mae hynny'n iawn gan bawb. Bydd y cyhoedd a'r Cyngor yn falch eich bod yn mynd ati i ddefnyddio'r Gymraeg a dangos parch ac ymrwymiad at yr iaith.

Swyddogion Sy'n Bresennol

Mae'n bolisi gan y Cyngor annog swyddogion Cymraeg eu hiaith a dysgwyr i siarad Cymraeg mewn pwyllgorau democrataidd er mwyn dangos bod y Cyngor o blaid defnyddio'r iaith a hybu arferion da lle mae dwyieithrwydd yn y cwestiwn yng ngweithgareddau'r Cyngor.

Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r polisiau a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg cysylltwch â Swyddog yr Iaith Gymraeg ar carys.morgan@ceredigion.gov.uk <<mailto:carys.morgan@ceredigion.gov.uk>>

Gweler geirfa ddefnyddiol isod:

Tudalen 51

Geirfa Pwyllgor	Committee Glossary
Bore da	Good morning
Pnawn da	Good afternoon
Croeso i'r cyfarfod	Welcome to the meeting
Croeso yma heddiw	Welcome here today
Diolch am ddod yma heddiw	Thank you for coming here today
Mae'r cyfarfod yn ddwyieithog	This is a bilingual meeting
Croeso i chi ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg	You're welcome to use Welsh or English
Mae cyfieithu ar y pryd ar gael	Simultaneous translation is available
Croeso i, y cyfieithydd	Welcome to..., the translator
Ydi'r offer/ gwasnaeth cyfieithu yn gweithio	Do the headphones work? Is the translation service working
Dechreuwn	We'll start
Oes unrhyw ymddiheuriadau?	Are there any apologies?
Trown at yr agenda	We'll turn to the agenda
Yr eitem gynta ar yr agenda yw	The first item on the agenda is...
Awn drwy gofnodion y cyfarfod blaenorol	We'll go through the agenda of the previous meeting
Hoffai unrhyw un gynnis fod y cofnodion yn gywir?	Would anyone like to propose that the minutes are correct?
Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu	Disclosure of personal / prejudicial interest
A oes gennych unrhyw faterion personol?	Do you have any personal matters?
Mae angen ethol Aelodau	We need to elect Members
Oes unrhyw un am enwebu?	Would anyone like to nominate?
Oes unrhyw un yn eilio?	Does anyone second that?
Mae angen mynd i bleidlais	we need to go to a vote
O blaid	For
Yn erbyn	Against
Ymatal	Abstain
Yr eitem nesaf ydy	The next item
Ac yn olaf...	And lastly...
Oes unrhyw faterion yn codi?	Any matters arising?
Oes gennych chi unrhyw sylwadau?	Do you have any comments?
Oes gennych chi unrhyw gwestiynau?	Do you have any questions?
Oes unrhyw fater arall?	Any other business?
Dyddiad y cyfarfod nesaf	Date of Next Meeting
Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniad	Many thanks to everyone for their contribution
Cloi'r cyfarfod	Close the meeting

Geirfa Cofnodion	Minutes Glossary
Adnabyddwyd	Identified
Adroddwyd	Reported
Amlygwyd	Highlighted
Awgrymir	Suggested

Tudalen 52

Awgrymwyd	It was suggested
Cwblhawyd	Completed
Cyfeiriodd	He/ She referred
Cyflwynodd	Presented
Cymeradwyo	Approve
Cymeradwywyd	Approved
Cynhelir	held
Darparwyd	Provided
Derbyniodd	Accepted
Dilynodd trafodaeth	Discussion followed
Diolchodd	Thanked
Dosbarthwyd	Distributed
Dywedwyd	It was said
Gofynnwyd	It was asked
Gwahoddwyd	Invited
Hysbysodd	Informed
Hysbyswyd	Notified
Llongyfarchwyd	Congratulations
Llwyddodd	Succeeded
Nodwyd	Noted
Penderfynwyd	Resolved
Penodwyd	Appointed
Strwythurau	Structures
Terfyna'r Adroddiad	Report ends
Terfynodd	Finished
Ymgwymerwyd	Undertaken



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Prif Weithredwyr a Swyddogion â chyfrifoldeb dros y Gymraeg
Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

09/05/2022

Annwyl Gyfaill,

Cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg: cais am dystiolaeth

Atodaf holiadur sy'n gofyn ichi nodi eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad â rhai o'r gofynion statudol sydd arnoch mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n ofynnol darparu'r wybodaeth hon, yn unol â safon 160, 166, 172 a 176.

Gofynnaf am eich ymateb erbyn **15/07/2022** os gwelwch yn dda. Byddaf yn ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am estyniad.

Wrth ymateb, dylech ystyried y gofynion fel y maent wedi eu nodi yn hysbysiad cydymffurfio'r sefydliad. Os ydych eisoed wedi cyhoeddi gwybodaeth sy'n ateb y cwestiynau, mae croeso i chi gyfeirio at y ffynonellau hynny. Er mwyn lleihau'r baich ar sefydliadau, rydym wedi dewis a dethol gofynion i ofyn yn eu cylch, ac nid ydym wedi cynnwys gofynion lle mae'n bosib i ni gael dystiolaeth ddigonol drwy ddulliau eraill.

Byddaf yn defnyddio'ch atebion i'm helpu i asesu cydymffurfiaeth y sefydliad.

Mae croeso i chi neu'ch swyddogion gysylltu â mi os hoffech ragor o wybodaeth.

Yn gywir,

Dylan Jones

Swyddog Gosod Safonau a Chydymffurfiaeth
ar ran Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg: cais am dystiolaeth

Cyfarwyddiadau

Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad â'r gofynion ag X. Dyma ddiffiniad o'r lefelau a nodwyd:

Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion bob amser, dan bob amgylchiadau, heblaw am eithriadau prin
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio'n llawn fel arfer, ond mae diffyg cydymffurfiaeth ar rai adegau neu o ran rhai gofynion
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	Mae'r sefydliad yn cydymffurfio ar rai adegau neu o ran rhai o'r gofynion, ond ddim yn cydymffurfio'n llawn ac yn gyson
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	Nid yw'r sefydliad yn cydymffurfio â'r gofynion o gwbl, neu mae'n cydymffurfio ar adegau prin neu o ran ychydig o agweddau'n unig
Gofynion ddim yn berthnasol	Nid yw'r gofynion wedi eu gosod ar y sefydliad, neu nid yw'r sefydliad yn cyflawni'r gweithgaredd

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

Yn ychwanegol at yr hyn a nodir ar rai cwestiynau, gall hyn gynnwys esboniad o'ch trefniadau ar gyfer cydymffurfio, niferoedd staff perthnasol, a dogfennau atodol.

Os nad ydych yn cydymffurfio'n llawn ar hyn o bryd, gallwch nodi pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gydymffurfio.

1. Cyflenwi gwasanaethau

Galwadau ffôn i brif rif ffôn y sefydliad / canolfan alwadau / llinell gymorth	
Rheoliadau rhif 1: safonau 8 - 17	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys gwybodaeth am nifer yr aelodau staff sy'n gallu delio â galwadau ffôn yn Gymraeg.	

Tudalen 55

03/09

[Ysgrifennwch eich dystiolaeth yma]

Arddangos deunydd yn gyhoeddus

Rheoliadau rhif 1: safonau 38 a 39

Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)

Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth

Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth

Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth

Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth

Gofynion ddim yn berthnasol

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.

Apiau

Rheoliadau rhif 1: safon 57

Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)

Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth

Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth

Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth

Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth

Gofynion ddim yn berthnasol

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.

Peiriannau hunanwasanaeth

Rheoliadau rhif 1: safon 60

Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)

Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth

Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth

Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth

Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth

Gofynion ddim yn berthnasol

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.

Arwyddion mae'r sefydliad yn eu harddangos

Rheoliadau rhif 1: safonau 61, 62 a 63

Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)

Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth

Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth

Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth

Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth

Gofynion ddim yn berthnasol

Tudalen 56

04/09

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r sefydliad Rheoliadau rhif 1: safonau 64 - 68	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">○ Pa gyfleusterau sydd gennych ar gyfer derbyn ymwelwyr, ac ym mha rai y mae modd cael gwasanaeth Cymraeg○ Nifer yr aelodau staff sy'n derbyn ymwelwyr, a nifer yr aelodau staff hynny sy'n gallu derbyn ymwelwyr yn Gymraeg.	
Hysbysiadau swyddogol Rheoliadau rhif 1: safonau 69 a 70	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Dyfarnu grantiau – dogfennau a phroses gwneud cais Rheoliadau rhif 1: safonau 71 - 75	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol	
Dyfarnu contractau – dogfennau a phroses gwneud cais Rheoliadau rhif 1: safonau 76 - 80	

Tudalen 57

05/09

Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	

2. Gweithredu mewnol

Polisi ar ddatblygu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg	
Rheoliadau rhif 1: safon 98	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys copi o'r polisi.	
Gofyn i gyflogeion am ddewis iaith ar gyfer deunyddiau penodol	
Rheoliadau rhif 1: safonau 99 - 104	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Cyhoeddi polisiau mewnol	
Rheoliadau rhif 1: safonau 105 - 111	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	

Tudalen 58

06/09

Cwynion a wneir gan aelodau o staff Rheoliadau rhif 1: safonau 112 - 115	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Disgyblu staff Rheoliadau rhif 1: safonau 116 - 119	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Technoleg gwybodaeth, deunyddiau cymorth a'r fewnrwyd Rheoliadau rhif 1: safonau 120 - 126	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Asesu sgiliau Cymraeg cyflogeion Rheoliadau rhif 1: safon 127	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys copïau o'r cofnodion rydych wedi eu cadw'n unol â safon 151.	

Tudalen 59

07/09

Meithrin sgiliau Cymraeg staff, a hyfforddiant Rheoliadau rhif 1: safonau 128 - 135	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Asesu gofynion ieithyddol swyddi gwag a newydd Rheoliadau rhif 1: safon 136	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys copïau o'r cofnodion rydych wedi eu cadw'n unol â safonau 153 a 154.	
Hysbysebu swyddi gwag a newydd – dogfennau a'r broses gyfweled a phenodi Rheoliadau rhif 1: safonau 136A - 140	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	
Arwyddion a arddangosir yn y gweithle Rheoliadau rhif 1: safonau 141, 142 a 143	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	

Tudalen 60

08/09

Cyhoeddiadau a negeseuon sain yn y gweithle	
Rheoliadau rhif 1: safon 144	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad.	

3. Hybu'r Gymraeg

Llunio a chyhoeddi strategaeth hybu'r Gymraeg	
Rheoliadau rhif 1: safon 145	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol.	
Asesu cyflawniad strategaeth hybu'r Gymraeg	
Rheoliadau rhif 1: safon 146	
Nodwch eich asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag X (diffiniadau uchod)	
Sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd canolig o gydymffurfiaeth	
Sicrwydd isel o gydymffurfiaeth	
Dim sicrwydd o gydymffurfiaeth	
Gofynion ddim yn berthnasol	
Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich asesiad, gan gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol.	

Tudalen 61

09/09

4. Materion atodol / dogfennau

Nodwch 'Ydyw' / 'Nac ydyw' / 'Gofynion ddim yn berthnasol' lle mae angen hynny.

Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg (ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf lle mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad)	
Rheoliadau rhif 1: safonau 158, 164, 170	
Nodwch 'Ydyw' / 'Nac ydyw' / 'Gofynion ddim yn berthnasol'	
Dogfen wedi ei chyhoeddi?	
Dogfen yn cynnwys yr holl fanylion sy'n ofynnol?	
Dolen i'r ddogfen	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol